# Strategaeth Coed a Chynllun Gweithredu Torfaen 2021 -2031



*Coeden y Flwyddyn Cymru 2019 ym Mharc Pont-y-pŵl*

***'Gwarchod, Cynllunio, Plannu a Rheoli - Tyfu er budd y Genhedlaeth Bresennol a Chenedlaethau'r Dyfodol'***

TORFAEN COUNTY BOROUGH BWRDEISTREF SIROL TORFAEN

# CYNNWYS


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Cyflwyniad** | **5** |
| 1.1 | Diben Strategaeth Coed Torfaen | 5 |
| 1.2 | Amserlen a Strwythur Cyflawni | 6 |
| 1.3 | Gweledigaeth | 6 |
| 1.4 | Nod | 6 |
| 1.5 | Amcanion Strategol | 6 |
| 1.6 | Diffinio Coed at Ddiben y Strategaeth hon | 7 |
| 1.7 | Pa Wasanaethau y mae Coed yn eu Darparu ar gyfer Cymdeithas? | 9 |
| 1.8 | Y Dull Rheoli Presennol | 10 |
| 1.9 | Brigdwf Coed yn Nhorfaen | 11 |
| **2** | **Cyd-destun Deddfwriaethol a Pholisi** | **13** |
| 2.1 | Rhwymedigaethau Deddfwriaethol a Pholisi | 13 |
| 2.2 | Cynllun Corfforaethol 3 Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen (2016-2021) | 13 |
| 2.3 | Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) | 13 |
| 2.4 | Cynllun Llesiant Torfaen (2018-2023) | 13 |
| 2.5 | Adrannau 197 a 198 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (1990) | 14 |
| 2.6 | Adrannau 6 a 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) | 14 |
| 2.7 | Rheoliadau Gwrychoedd (Perthi, Cloddiau) (1997) | 15 |
| 2.8 | Deddf Coedwigaeth (1967) - Trwyddedau Cwympo Coed | 16 |
| 2.9 | Adran 154 Deddf Priffyrdd (1980) | 16 |
| 2.10 | Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (2003) - Gwrychoedd neu Berthi Uchel | 17 |
| 2.11 | Creu Gwent Iachach | 17 |
| 2.12 | Gorchmynion Iechyd Coed a Phlanhigion | 17 |
| 2.13 | Polisi Cynllunio Cymru Rhifyn 10 (2018) | 18 |
| 2.14 | Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur | 19 |
| 2.15 | Nodyn Cyngor Technegol 10: Gorchmynion Cadw Coed | 19 |
| 2.16 | Cynllun Datblygu Lleol Torfaen (tan 2021) | 20 |
| 2.17 | Iechyd a Diogelwch a Choed | 20 |
| 2.18 | Coetiroedd i Gymru - Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed (2018) | 21 |
| 2.19 | Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2016) | 23 |
| **3** | **Y Strategaeth Coed** | **25** |
| 3.1 | Rheoli Coed | 25 |
| 3.2 | Coed sy'n Eiddo Preifat | 25 |
| 3.3 | Coed sy'n Eiddo Cyhoeddus | 26 |
| 3.4 | Rheoli Coed yn Rhagweithiol | 26 |
| 3.5 | Rhywogaethau a Warchodir | 26 |
| 3.6 | Nodweddion Coed a Bioamrywiaeth | 26 |
| 3.7 | Rheoli Prysgwydd er mwyn Gwarchod Natur | 28 |
| 3.8 | Rheoli Risgiau Coed | 28 |

| | | |
|---|---|---|
| 3.9 | Defnyddio Pren o Ffynonellau Lleol mewn Ffyrdd Cynaliadwy | 31 |
| 3.10 | Y Polisi ar gyfer Rheoli Ymholiadau am Goed | 32 |
| 3.11 | Ceisiadau gan y Cyhoedd am Waith ar Goed | 32 |
| 3.12 | Plannu Coed yn lle Coed a Gwympwyd | 37 |
| 3.13 | Datblygu Dull Strategol o Weithredu ar gyfer Plannu Coed Newydd ar Strydoedd ac mewn Coetiroedd | 37 |
| 3.14 | Y Goeden Iawn yn y Man Iawn | 38 |
| 3.15 | Coed a Datblygiad: Canllawiau Cynllunio Atodol | 38 |
| 3.16 | Dull o Werthfawrogi Coed a Arweinir gan y Gymuned | 39 |
| 3.17 | Monitro ac Adolygu | 39 |
| **4** | **Cynllun Gweithredu** | **41** |
| 4.1 | Amcan 1: **Rheoli Coed** mewn Ffordd Gynaliadwy | 41 |
| 4.2 | Amcan 2: **Plannu Coed** mewn Ffordd Strategol | 41 |
| 4.3 | Amcan 3: Dull o **Warchod Coed** ar gyfer Torfaen Gyfan | 42 |
| 4.4 | Amcan 4: Dull o **Werthfawrogi Coed** A Arweinir gan y Gymuned | 43 |
| 4.5 | Amcan 5: Dull Partneriaeth o Fonitro ac Adolygu **Strategaeth Coed Torfaen** | 43 |
| 4.6 | Amcan 6: Sicrhau Bod Cyn Lleied â Phosibl o **Risgiau** i Bobl, Seilwaith ac Eiddo trwy Reoli Risgiau gan Goed | 43 |




*Coeden ar stryd yng Nghwmbrân*

# RHAGAIR



Y Cynghorydd Mandy Owen

Yr Aelod Gweithredol dros yr Amgylchedd

Mae'n bleser gennyf gyflwyno i chi y Strategaeth Coed gynhwysfawr gyntaf ar gyfer Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Mae cymoedd ucheldir coediog, gwrychoedd, coetiroedd trefol a strydoedd coediog Torfaen yn dylanwadu ar gymeriad ei thirwedd. Nid yw'n syndod, felly, fod gan ein bwrdeistref sirol y brigdwf trefol mwyaf yng Nghymru. Y seilwaith gwyrdd hwn sy'n cynnig amrywiaeth o fuddion i'r rheiny ohonom sy'n byw yn Nhorfaen, yn gweithio yma ac yn ymweld â'r ardal.

Ar adeg pan fo ansicrwydd ar gynnydd ar draws y byd, ni ddylem anwybyddu cyfraniad ein coed a'n mannau gwyrdd at yr amgylchedd lleol ac at faterion ehangach fel newid hinsawdd. Dylem sicrhau bod ein hamgylchedd yn cael ei drosglwyddo at genedlaethau'r dyfodol mewn cyflwr gwell na'r cyflwr oedd arno wrth i ni ei etifeddu.

Mae'r strategaeth hon yn rhychwantu cyfnod o 10 mlynedd, ac mae ynddi weledigaeth o warchod, rheoli a gwella sy'n cydsynio ag egwyddor cynaliadwyedd fel y cyflwynir gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015. Serch hynny, mae yna lawer o waith i'w wneud os ydym yn mynd i wireddu'r weledigaeth hon. Dylid cydlynu'r gwaith er mwyn targedu adnoddau mewn ffordd sy' sicrhau'r buddion pennaf. Rhaid i unrhyw gynnydd mewn gorchudd coed, trwy gynlluniau plannu cymunedol neu fentrau dad-ddofi, ystyried barn y gymuned a rhaid iddynt fod yn y man iawn a defnyddio coed o'r rhywogaethau iawn.

Trwy gydweithio â'n dinasyddion, ein partneriaid a grwpiau cymunedol, ac ar draws adrannau'r cyngor, rhaid i ni gydnabod gwerth ein coed a'u cyfraniad at wella ansawdd bywyd, a gweithredu yn unol â hyn. Mae'r Strategaeth Coed hon yn gosod fframwaith ar gyfer y gwaith hwnnw.

Pleser mawr i mi yw cefnogi'r strategaeth hon fel Yr Aelod Gweithredol dros yr Amgylchedd.

# 1. CYFLWYNIAD

## 1.1 Diben Strategaeth Coed Torfaen

1.1.1 Er ei bod yn un o'r bwrdeistrefi sirol lleiaf yng Nghymru, mae tirwedd Torfaen yn un nodedig. Diffinnir ei chymeriad yn y gogledd gan ei safle ar ymyl deheuol maes glo de Cymru, ac mae'r hanner gwaelod yn fwy tebyg i dirwedd caeau glas ei chymydog, Sir Fynwy. Serch hynny, mae yma nodweddion fel parciau, gerddi ac ardaloedd cadwraeth, a hynny'n rhai naturiol a diwylliannol, ac mae gan goed rôl bwysig yn y mannau hyn. Ymhellach, daw rhwydwaith o lwybrau teithio coediog, llinol, at ei gilydd, er enghraifft Camlas Sir Fynwy a Brycheiniog, ystâd y cefnffyrdd, llwybrau beicio a llwybrau cerdded, yn ogystal â strydoedd coediog niferus, er mwyn gwneud cyfraniad pwysig at addasiadau i newid hinsawdd, ein gallu i warchod a gwella bioamrywiaeth a llesiant pobl, felly'n gwneud cyfraniad sylweddol at Seilwaith Gwyrdd y Fwrdeistref Sirol.

1.1.2 Am i ni etifeddu coed a blannwyd ar strydoedd ac mewn parciau ac am i'n coetiroedd gael eu gwarchod, yn enwedig coetiroedd hynafol, mae gan Dorfaen y brigdwf coed trefol mwyaf yng Nghymru. Cyfeirir at hyn fel ei choedwig drefol. Serch hynny, yn erbyn y cefndir deiliog hwn, gallwn weithiau gymryd coed yn ganiataol a chael eu gwared yn hawdd gan fod cymaint ohonynt gennym.

1.1.3 Ond mae brigdwf coed Torfaen dan bwysau oherwydd cyfuniad o ffactorau, sef newid mewn defnydd tir, newid hinsawdd, diwylliant sy'n osgoi risgiau, anoddefgarwch y gymuned a diffyg dealltwriaeth ymhlith rhai sy'n gweld coed mewn ffordd llai positif. Nod y strategaeth hon yw tynnu ynghyd mewn un ddogfen drosfwaol, ddull gweithredu cydlynol ar gyfer rheoli a gwella'r holl goed sydd dan warchodaeth yr awdurdod lleol. Trwy wneud hynny, mae'n anelu at gyfarwyddo penderfyniadau mewnol sy'n gyson â llawer o rwymedigaethau statudol y cyngor. Dim ond trwy eu gosod wrth galon penderfyniadau amgylcheddol y bydd buddion amlswyddogaethol coed yn dod i gael eu cydnabod a'u gwerthfawrogi.

1.1.4 Yn y tabl isod, dangosir sut yr ydym yn mynd ati yn y strategaeth hon i ddiweddaru gweithdrefnau polisi a gweithredol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ynghylch gwarchod, gwella a rheoli coed.

| Rheoli Coed yn y Ffordd Draddodiadol | Rheoli Coed yn y Ffordd Fodern |
|---|---|
| • Coed fel amwynder gweledol | • Gwerthfawrogi coed am eu gwasanaethau ecosystem |
| • Canolbwyntio ar goed unigol | • Canolbwyntio ar y brigdwf |
| • Coed yn cael eu trin fel blaenoriaeth isel | • Coed fel cyfranwyr pwysig at lesiant |
| • Dim gwerth economaidd amlwg i goed | • Gwerth yn cael eu gwerthfawrogi am eu gwerth economaidd |
| • Canolbwyntio ar rywogaethau addurniadol, amrodorol | • Canolbwyntio ar rywogaethau brodorol â brigdwf mawr |
| • Dylunio ar sail estheteg yn unig | • Dylunio amlbwrpas |
| • Cynnal a chadw coed unigol | • Rheoli'r holl boblogaeth goed |

| Rheoli Coed yn y Ffordd Draddodiadol | Rheoli Coed yn y Ffordd Fodern |
|---|---|
| | yn gyffredinol |
| • Ffiniau perchnogaeth yn pennu rheolaeth coed | • Y boblogaeth goed yn cael ei gweld fel adnodd parhaus heb ystyried ffiniau. |

*Ymagweddau Rheoli Coed (addaswyd o Strategaeth Coed a Choetiroedd Wrecsam 2016 - 2026)*

1.1.5 Gwaith y strategaeth hon yw darparu fframwaith ar gyfer gwarchod a rheoli coed ar gyfer y cyngor cyfan. Mae'n ceisio meintoli a rhoi gwerth ar yr adnodd coed a choetiroedd yn Nhorfaen a, law yn llaw â Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Torfaen, sydd ar y gweill, mae'n ceisio bod yn yn llwyfan ar gyfer prosiectau plannu coed a choetiroedd y cyngor a'r gymuned.

## 1.2 Amserlen a strwythur cyflawni

1.2.1 Mae'r strategaeth a'r cynllun gweithredu yn rhychwantu cyfnod o ddeng mlynedd (2021-2031) a nod yr amserlen yw canolbwyntio ar weithredu yn y tymor byr i'r tymor canolig, yn unol â Chynllun Llesiant Torfaen. Rhagwelir yr adroddir ar y gwaith o gydlynu a monitro'r camau gweithredu sydd wedi eu cyflwyno yn y cynllun hwn, trwy ofyniad adrodd y ddyletswydd bioamrywiaeth bob tair blynedd.

## 1.3 Gweledigaeth

1.3.1 Y weledigaeth ar gyfer y strategaeth hon yw:

***'Gwarchod, Cynllunio, Plannu a Rheoli – Tyfu er budd y Genhedlaeth Bresennol a Chenedlaethau'r Dyfodol'.***

## 1.4 Nod

1.4.1 Mai ein nod yw sicrhau bod coed stryd Torfaen, ei choetiroedd a'i gwrychoedd yn cael eu gwarchod, eu huchelbrisio, eu rheoli, eu gwella a'u gwerthfawrogi er budd y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol.

## 1.5 Amcanion strategol

1.5.1 Cynlluniwyd y chwech amcan strategol i'n cefnogi i gyflawni'r weledigaeth a'r nod.

**Amcan 1: Rheoli coed** mewn ffordd gynaliadwy sy'n cydnabod gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol coed trwy'r gwasanaethau ecosystem maen nhw'n eu darparu.

**Amcan 2: Plannu coed** mewn ffordd strategol sy'n ceisio gwella seilwaith gwyrdd y fwrdeistref sirol trwy weithio mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid.

**Amcan 3:** Dull o **warchod coed** ar gyfer Torfaen gyfan trwy ddatblygiad polisïau.

**Amcan 4:** Dull o **werthfawrogi coed** a arweinir gan y gymuned trwy gynnwys grwpiau cymunedol, ysgolion a thrigolion ayb. yn actif.

**Amcan 5:** Dull partneriaeth o **fonitro ac adolygu** Strategaeth Coed Torfaen trwy fforymau sydd eisoes wedi eu sefydlu fel y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Bartneriaeth Natur Leol.

**Amcan 6:** Lle bynnag y bo'n bosibl, sicrhau bod cyn lleied â phosibl o risgiau i bobl, seilwaith ac eiddo trwy ddull rheoli **risgiau gan goed**

## 1.6 Diffinio coed at ddiben y strategaeth hon a'r cynllun gweithredu hwn

1.6.1 Er mwyn sicrhau cysondeb â dyletswyddau statudol sydd eisoes yn bodoli, mae'r strategaeth hon a'r cynllun gweithredu hwn yn dilyn yr un dull gweithredu â Gorchmynion Cadw Coed fel y diffinnir gan yr Uchel Lys. Felly, mae 'coeden' yn unrhyw beth y byddai rhywun yn ei alw'n goeden fel arfer ac felly mae'n cynnwys yr enghreifftiau canlynol:

- **Pob coeden** yn amrywio o'r glasbren lleiaf i'r goeden hynod fwyaf;
- **Pob gwrych**
- **Pob coeden ar stryd neu mewn parcdir**
- **Pob coetir**
- **Pob coeden ffrwythau h.y. perllannau**



*Coetir collddail hynafol a choetir planhigfa goniffer mwy diweddar*



*Y Berllan ar Fferm Gymunedol Greenmeadow*



*Gwrychoedd ffawydd a reolir ar y blaendir a llinell o goed ffawydd heb eu rheoli yn y cefndir.*



*Ffawydden aeddfed yng nghoetir hynafol Cwm-y-Glyn*

### 1.7 Pa wasanaethau y mae coed yn eu darparu ar gyfer cymdeithas?

1.7.1 Mae coed yn asedau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol sy'n cynyddu o ran gwerth po hiraf y maent yn byw. Erbyn hyn, mae yna dechnegau ar waith i fesur gwerth economaidd coed. Mae system o'r enw CAVAT (*Capital Asset Value for Amenity Trees*) yn un enghraifft o'r fath sy'n sylfaen ar gyfer rheoli coed fel asedau cyhoeddus yn hytrach na rhwymedigaeth. https://www.ltoa.org.uk/documents-1/capital-asset-value-for-amenity-trees-cavat

1.7.2 Dyma rai o'r enghreifftiau a ddefnyddir amlaf ar gyfer buddion coed ac yn benodol y brigdwf coed.

- **Lleihau Costau:** Mae coed yn helpu gwella perfformiad amgylcheddol adeilad. Gall datblygiad lle plannwyd yn dda leihau costau gwresogi ac oeri.

- **Cynnydd yng Ngwerth Ased:** Uchafwch eich buddsoddiad. Mae gan goed y potensial i gynyddu gwerth eiddo.

- **Gwelliannau Amgylcheddol:** Mae coed trefol yn gymorth i leihau eithafion mewn tymheredd.

- **Gwelliannau Cymdeithasol:** Yn ôl y dystiolaeth, mewn rhai ardaloedd mae lleoliadau sydd â niferoedd uchel o goed yn gweld llai o droseddau. Mae coed hefyd yn gymorth i leihau llygredd sŵn, gan amsugno ac allwyro sŵn.

- **Creu Naws am Le:** Mae coed yn gymorth i wella hunaniaeth leol. Mae rhywogaethau coed mawr yn golygu gwelliannau mawr. Gall coed annog gweithgareddau cymdeithasol mewn ardaloedd sydd â niferoedd uwch o goed, gan greu cymunedau cryfach a mwy cyfeillgar.

- **Strydoedd Mwy Diogel:** Mae strydoedd coediog yn hybu gyrru mwy pwyllog ac felly maent yn fwy diogel i gerddwyr ac yn cyfoethogi cerdded a beicio.

- **Iechyd a Llesiant:** Mae coed yn gwella'r amgylchedd trefol. Dangoswyd bod coed a gwyrddio trefol yn lleihau lefelau straen ac yn cynyddu'r ymdeimlad o lesiant.

- **Sefydlogi Stormydd:** Mae coed yn helpu lleihau effeithiau fflachlifoedd trwy rhyngdorri'r glaw a gallant amsugno dŵr yn hwylus trwy eu gwreiddiau ffibrog.

- **Gwelliannau Bywyd Gwyllt:** Mae plannu coed yn ffordd wych o gynyddu bioamrywiaeth. Maent yn elfen bwysig wrth greu cysylltiadau gwyrdd a choridorau bywyd gwyllt mewn ardaloedd trefol fel rhan o seilwaith gwyrdd.

- **Gwella Ansawdd yr Aer:** Mae buddion coed trefol o ran gwella ansawdd aer mewn ardaloedd trefol yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau. Pan fo llystyfiant yn rhwystr, mae crynodiadau llygryddion o gerbydau yn union tu ôl i'r rhwystr yn lleihau.

- **Dal a Storio Carbon:** Mae coed yn dal ac yn storio maint sylweddol o garbon ac o'r herwydd yn helpu i leihau effeithiau newid yn yr hinsawdd.

## 1.8 Y dull rheoli coed presennol

1.8.1 Cyflwynir dull gweithredu presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ar gyfer rheoli coed yn y Polisi Coed a baratowyd gan Adran yr Amgylchedd (Is-adran Gwasanaethau Technegol) tua 20 mlynedd yn ôl. Mae'n bolisi sy'n darparu fframwaith gweithiol ar gyfer rheoli coed. Mae'n nodi'n glir ac yn gryno y mathau o gŵynion am goed y byddwn yn delio â nhw, a'r mathau na fyddwn yn delio â nhw. Mae'r strategaeth hon yn anelu at adnewyddu'r Polisi Coed.

1.8.2 Mae sawl un o adrannau'n cyngor yn gwneud penderfyniadau bob dydd mewn perthynas â choed. Yr adran fwyaf amlwg yw'r adran gynllunio, trwy ddyrannu safleoedd datblygu a gweinyddu'r system Gorchmynion Cadw Coed, a'r Tîm Rheoli Asedau sy'n gwerthu neu'n gosod tir sy'n cynnal coed. Mae'r Tîm Strydlun a Pholisi'r Amgylchedd Naturiol yn gyfrifol am reoli coed sy'n peryglu iechyd a

diogelwch a/neu yn rhwystr ar briffyrdd. Mae'r tîm hwn hefyd yn gyfrifol am reoli coed yn rhagweithiol at ddibenion gwarchod natur.





Enghreifftiau o waith ar goed ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus

## 1.9 Brigdwf Coed yn Nhorfaen

1.9.1 *Gorchudd Coed yn Nhrefi Bwrdeistref Sirol Torfaen: Deall brigdwf er mwyn cynllunio a rheoli ein coed trefol yn well (Cyfoeth Naturiol Cymru)* yw'r brif ffynhonnell wybodaeth ynghylch y gorchudd coed trefol yn Nhorfaen. Yn ogystal, ceir rhagor o wybodaeth yn Rhestr Coetiroedd Hynafol Cyfoeth Naturiol Cymru a Rhestr Coed Hynafol Coed Cymru https://ati.woodlandtrust.org.uk/.

1.9.2 Mae data a gymerwyd o’r astudiaeth ar frigdwf coed trefi yn dangos bod gorchudd trefol Torfaen yn 23.2% yn 2013, o gymharu â 24.4% yn 2009 – **y sir â'r brigdwf mwyaf yng Nghymru.** Mae yna wahaniaethau rhwng trefi oherwydd cymeriad y dirwedd ond mae pob un o'r tri phrif ardal drefol yn Nhorfaen yn uwch na'r

cyfartaledd cenedlaethol - Cwmbrân (23.9%), Pont-y-pŵl (23%) a Blaenafon (19.8%).

1.9.3 Mae coetir trefol yn cynrychioli 35% o frigdwf trefol Cymru, ond yn Nhorfaen mae cymaint â 45%. Mae'r gweddill yn goed sydd ddim yn rhan o goetir, a elwir yn goed 'amwynder', er enghraifft coed unigol a grwpiau o goed sy'n tyfu ar hyd strydoedd ac mewn gerddi, mewn meysydd parcio a mannau agored cyhoeddus a phreifat trefol eraill.

1.9.4 Mae mannau agored cyhoeddus yn gartref i 53% o'r holl orchudd coed yng nghymunedau Cymru er gwaethaf y ffaith mai dim ond 22% o dir trefol ydynt. Mae hyn yn 57% yn Nhorfaen lle mae mannau agored cyhoeddus yn 25% o'r tir trefol.

1.9.5 Mae gerddi preswyl preifat yn 35% o ardaloedd trefol Cymru ac yn darparu 20% o'n holl orchudd coed trefol. Mae hyn yn 33% yn Nhorfaen gyda gerddi yn darparu 15% o'r holl frigdwf. Mae hyn yn tanlinellu cyfrifoldeb perchentywyr a phwysigrwydd defnyddio a rheoli Gorchmynion Cadw Coed yn dda. Mae hefyd yn amlygu cyfrifoldeb datblygwyr a chynllunwyr fel rhan o'r broses ddatblygu i sicrhau bod cynigion yn ymwneud â'r dirwedd yn gwarchod coed sydd eisoes yn bodoli ac yn plannu coed newydd.

1.9.6 Mae llwybrau trafnidiaeth, gan gynnwys ymylon y ffyrdd a phalmentydd, yn 16% o dir trefol Cymru ond dim ond 9% o'r gorchudd coed y maent yn ei ddarparu. Yn Nhorfaen mae'r ffigurau hyn yn 17% ac 8%. Mae traffig modurol yn achosi llawer o'r llygredd aer a dŵr wyneb yn ein trefi, ac mae coed yn gallu cael gwared ar y llygredd hwn.

1.9.7 Ar y cyfan, collodd Torfaen 37 hectar o'r canopi coed rhwng 2009 a 2013 gyda phob un o'r dair dref yn cyfrannu at y golled yn y brigdwf. Yn yr un modd, dangosodd 159 allan o 200 o ardaloedd trefol Cymru leihad yn y brigdwf. Wrth gymharu colli ac ennill coed rhwng 2006 a 2013, ymddengys bod 7,000 o goed mawr wedi cael eu colli ar y cyfan ledled Cymru. Serch hynny, ymddengys mai Torfaen yw un o'r siroedd prin lle recriwtiwyd coed o'r categori canolog - cymaint â 985. Yn genedlaethol, fodd bynnag, ymddengys bod etifeddiaeth coed Fictoraidd ac Edwardaidd Cymru yn cael ei herydu'n raddol.

1.9.8 Er bod y niferoedd yn amrywio ledled Cymru, mae gan 65% o'r wardiau mwy cefnog orchudd o dros 15% o gymharu â 23% ar gyfer wardiau llai cefnog. Fodd bynnag, mae'r gorchudd coed yn 10 ward mwyaf difreintiedig Cymru (2014) yn amrywio'n helaeth, o gyn lleied â 2% yng Ngorllewin Rhyl i 19% yn Ynysowen, Aberfan. O'r 18 ward yn Nhorfaen, mae gan 12 fwy o frigdwf na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae pedair dros 30% - mae gan Sant Cadog a Pen-y-garn 46%. Dim ond dau - Abersychan 1 (8%) a Threfddyn (5%) sy'n is na 10%. Lle bo gorchudd coed uchel a lefel uchel o amddifadedd yn bodoli ochr yn ochr, ymddengys bod hyn yn gysylltiedig â'r ffaith fod coetir trefol lleol yno yn hytrach na choed amwynder. Weithiau, mae coed o'r math hwn yn gallu bod mewn cyflwr heb ei reoli ac yn anhygyrch.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol:
https://cdn.naturalresources.wales/media/682950/torfaen-tcwtc3-technical-annex.pdf

# 2. CYD-DESTUN DEDDFWRIAETHOL A PHOLISI

**2.1 Rhwymedigaethau deddfwriaethol a pholisi**

2.1.1 Mae rhwymedigaethau statudol yn llywio'r ffordd y mae'r awdurdod lleol yn rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â choed yn yr ardaloedd y mae'n eu rheoli. Mae sawl darn pwysig o ddeddfwriaeth a pholisi yn fframio'r gwaith hwn ac yn cael sylw yn yr adrannau canlynol.

**Cynllun Corfforaethol 3 Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen 2016 - 2021**

2.2.1 Mae'r cynllun hwn yn nodi sut y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn bwriadu cydweithio â'r cymunedau er mwyn creu dyfodol gwell, mwy cyfartal a chynaliadwy i bobl Torfaen.

2.2.2 Tair o flaenoriaethau'r cynllun yw:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen glân a gwyrdd
- Codi cyrhaeddiad addysgol
- Cymorth i drigolion Torfaen sydd fwyaf agored i niwed

https://www.torfaen.gov.uk/en/AboutTheCouncil/ImprovingTorfaen/CorporatePlan/Corporate-Plan-3.aspx

**2.3 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) – datblygu cynaliadwy**

2.3.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) yn ei gwneud yn ddyletswydd ar bob corff cyhoeddus i ddatblygu'n gynaliadwy. Diffinnir Datblygu Cynaliadwy fel proses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol: https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2015/2/contents/enacted

**2.4 Cynllun Llesiant Torfaen 2018-2023**

2.4.1 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015) hefyd yn sefydlu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn Nhorfaen yn bartneriaeth leol sy'n dod â gwasanaethau cyhoeddus at ei gilydd er mwyn cyflawni nodau'r ddeddf a rhoi Cynllun Llesiant yn ei le ar gyfer yr ardal.

2.4.2 Paratowyd Cynllun Llesiant Torfaen (2018 - 2023) yn dilyn asesiad o farn trigolion Torfaen ar sail lleoedd. Mae'r rhan fwyaf o'r rheiny a ymatebodd yn gwerthfawrogi mannau gwyrdd, eisiau strydoedd glân, diogel, tai fforddiadwy ac iechyd da.

O'r asesiad hwn, cytunodd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar saith amcan, fel a ganlyn:

1. Datblygu rhwydwaith o ardaloedd naturiol gweithredol, sydd wedi eu cysylltu, ac sy'n cefnogi anghenion llesiant y poblogaethau lleol nawr ac yn y dyfodol;
2. Datblygu ymatebion addasol a lliniarol ar gyfer effeithiau newid hinsawdd;
3. Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc;

4. Atal cyflyrau iechyd cronig trwy gefnogi ffyrdd iach o fyw a galluogi pobl i heneiddio'n dda;
5. Taclo'r patrymau tlodi sy'n pontio'r cenedlaethau a datblygu cydnerthedd economaidd;
6. Gwella sgiliau lleol trwy gynllunio'r gweithlu, hyfforddiant, prentisiaethau a chyfleoedd i wirfoddoli;
7. Creu cymunedau diogel, hyderus a hybu cydlyniant cymunedol.

Trwy wella coed a choetiroedd, gellir cyfrannu at lawer o'r amcanion hyn, ond bydd y prif gyfraniad at amcanion 1, 2 a 3.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol:
[http://www.torfaenpublicservicesboard.co.uk/en/Planning-Together/Well-being-Plan.aspx](http://www.torfaenpublicservicesboard.co.uk/en/Planning-Together/Well-being-Plan.aspx)

## 2.5 Adrannau 197 a 198 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (1990)

2.5.1 Deddf Cynllunio Gwlad a Thref (1990) yw'r brif ddeddfwriaeth ar gyfer rheoleiddio datblygiad tir yng Nghymru a Lloegr. Yn bennaf, mae adrannau 197 a 198 yn ymwneud â choed, a lle bo'n bosibl plannu mwy o goed a sefydlu Gorchmynion Cadw Coed.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol:
[https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/8/contents](https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1990/8/contents)

## 2.6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) (2016) – bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau

2.6.1 Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru i wrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth yng Nghymru a gwella cadernid ein hecosystemau, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn cyflwyno dyletswydd gyhoeddus newydd, sy'n amlygu bioamrywiaeth fel elfen hanfodol o gadernid ecosystem.

2.6.2 Mae **Adran 6** y ddeddf yn gosod dyletswydd uwch ar bob awdurdod cyhoeddus. Felly, wrth gyflawni eu swyddogaethau yng Nghymru, rhaid i gyrff cyhoeddus 'gynnal a gwella bioamrywiaeth' lle bo hynny o fewn gweithrediad cywir eu swyddogaethau. Mae hyn yn sicrhau bod bioamrywiaeth yn rhan annatod o'r penderfyniadau y mae awdurdodau cyhoeddus yn eu gwneud.

2.6.3 Fel cymorth i gydymffurfio â'r ddyletswydd newydd hon, rhaid i awdurdodau cyhoeddus hefyd ystyried tystiolaeth berthnasol yn ôl y gofyn. Ymhellach, bydd gofyn i awdurdodau cyhoeddus baratoi a chyhoeddi cynllun hefyd, yn nodi sut y maent yn bwriadu cydymffurfio â'r ddyletswydd ynghylch bioamrywiaeth a chadernid ecosystemau.

Dyma enghreifftiau o'r hyn y gallai awdurdodau cyhoeddus ei wneud i fodloni'r ddyletswydd hon ynghylch bioamrywiaeth:

- Codi ymwybyddiaeth ar draws sefydliad ynghylch sut y mae pob rôl yn gallu effeithio ar fioamrywiaeth a dylanwadu arni, ac ystyried mesurau i wella bioamrywiaeth ac ecosystemau ymhob polisi, cynllun a phrosiect.

- Archwilio pob cyfle i gefnogi bioamrywiaeth ac i ddangos cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd - e.e. plannu rhywogaethau coed brodorol, ardaloedd o flodau gwyllt ar gyfer pryfed sy'n peillio, gadael ardaloedd o wair heb eu torri a gwella cysylltedd ecolegol.

- Gweithio i gyflawni gwelliannau i fioamrywiaeth ar draws yr holl weithgareddau.

2.6.4 Rhaid bod awdurdodau cyhoeddus, wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd Adran 6 **yn rhoi ystyriaeth** i'r rhestrau yn Adran 7, sy'n canolbwyntio ar rywogaethau a chynefinoedd o'r pwysigrwydd mwyaf**.** Bydd hyn yn gymorth hefyd i awdurdodau cyhoeddus fodloni rhwymedigaethau dan Gynllun Adfer Natur Cymru. Mae coed a choetiroedd yn elfen sylweddol o'r rhestr yn adran 7.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol:
https://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/3/contents/enacted

2.6.5 Mae **Datganiadau Ardal** hefyd yn ofyniad gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Rhoddodd y ddeddf ddyletswydd ar Gyfoeth Naturiol Cymru i gyhoeddi a gweithredu Datganiadau Ardal sy'n
rhychwantu Cymru gyfan. Mae Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru yn cynnwys Torfaen ac mae ynddo themâu sy'n ymwneud â chysylltedd cynefinoedd, iechyd, newid hinsawdd a gweithio mewn partneriaeth.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol: Cyfoeth Naturiol Cymru / Datganiad Ardal De-ddwyrain Cymru (naturalresources.wales)

## 2.7 Rheoliadau Gwrychoedd (Perthi, Cloddiau) (1997) – gwrychoedd trefol

2.7.1 Diben Rheoliadau Gwrychoedd (1997) yw diogelu gwrychoedd (perthi, cloddiau) rhag cael eu colli a/neu ddifrodi. Mae gwrychoedd yn rhes o lwyni a ffurfir wrth reoli rhywogaethau coed. Nid oes diffiniad yn y rheoliadau ar gyfer yr hyn sy'n cyfrif fel gwrych, ond nid yw gwrych sydd wedi tyfu yn llinell o goed trwy ddiffyg rheolaeth yn dod o dan y rheoliadau.

2.7.2 Nid yw gwrychoedd sy'n ffurfio cwrtil anedd-dy yn ddarostyngedig i amodau'r rheoliadau chwaith.

2.7.3 Er mwyn i'r Rheoliadau Gwrychoedd fod yn berthnasol, rhaid bod y gwrych o leiaf 20 metr o hyd neu wedi ei chysylltu bob pen gyda gwrych arall. Mae bylchau o hyd at 20 metr wedi eu cynnwys fel rhan o'r gwrych. Pan fo perchennog tir yn bwriadu cael gwared ar ran o wrych neu wrych cyfan, rhaid cyflwyno Hysbysiad Gwaredu Gwrych i'r awdurdod cynllunio lleol yn gyntaf.

2.7.4 Yna, bydd yr awdurdod yn pennu a yw'r gwrych yn bwysig ai peidio, ac os yw'n bwysig cyhoeddir Hysbysiad Cadw Gwrych. Rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori â chynghorau cymuned ac ystyried barn y cynghorau cymuned. Gall gwrych pwysig fod yn un sy'n dynodi ffin hanesyddol plwyf, yn cynnal rhywogaethau a restrir ar Atodlenni 1, 5 ac 8 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad (1981) neu ger Hawl Tramwy Cyhoeddus. Hefyd, rhaid bod y gwrych yn cynnwys nifer penodol o rywogaethau coediog (gweler y rheoliadau am y manylion llawn).

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y dolenni canlynol:
https://www.legislation.gov.uk/cy/uksi/1997/1160/made a
http://naturenet.net/trees/hedgerow/

## 2.8 Deddf Coedwigaeth (1967) – trwyddedau cwympo coed

2.8.1 Ni chyflwynir cais am ganiatâd i gwympo coeden a warchodir neu i wneud gwaith ar goeden a warchodir, i'r awdurdod cynllunio lleol, pan fo gofyn cael trwydded cwympo coed. Mewn achosion o'r fath, rhaid cyflwyno cais i'r Awdurdod Coedwigaeth (Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd) yn y lle cyntaf. Yn Adran 9 Deddf Coedwigaeth (1967) a'r Rheoliadau ategol, ceir sefyllfaoedd lle nad oes angen trwydded cwympo coed.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol:
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1967/10/part/II/crossheading/restriction-of-felling

## 2.9 Adran 154 Deddf Priffyrdd (1980) – coed wrth ymyl ffyrdd

2.9.1 Un o ofynion Deddf Priffyrdd 1980 yw y dylid cadw priffordd gyhoeddus yn glir o rwystrau. Os nad yw coed a llystyfiant arall sy'n tyfu wrth ochr yr heol yn cael eu rheoli, gallant rwystro symudiad cerbydau a cherddwyr. Mae'r ddeddf yn rhoi pwerau i'r awdurdod priffyrdd i gael gwared ar goed a llystyfiant arall sy'n gallu rhwystro defnyddwyr y briffordd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol:
https://www.legislation.gov.uk/cy/ukpga/1980/66/contents



*Stryd â choed wedi eu plannu arni ym Mhontnewynydd*

## 2.10 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (2003) - gwrychoedd neu berthi uchel

2.10.1 Mae gan wrychoedd (perthi, cloddiau) lawer o rinweddau i berchentywyr. Maent yn darparu preifatrwydd ac yn cynnal bywyd gwyllt mewn ardaloedd trefol. Serch hynny, os nad yw gwrychoedd gerddi yn cael eu rheoli, gallant achosi anghydfod rhwng cymdogion os ydynt yn cael eu gadael i dyfu'n rhy dal.

2.10.2 Mae materion sydd heb eu datrys yn ymwneud â gwrychoedd neu berthi uchel yn cael eu trafod dan Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003. Yn y ddeddf hon, ystyr 'gwrych neu berth uchel' yw rwystr i olau neu fynediad ag:

(a) sy'n cael ei ffurfio'n gyfan gwbl neu'n bennaf gan linell o ddwy goeden fytholwyrdd neu fwy; ac
(b) sy’n codi i uchder o fwy na dwy fetr uwchben lefel y tir.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y dolenni canlynol:
https://www.gov.uk/government/publications/over-the-garden-hedge
https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachmentdata/file/9408/hedgeheight.pdf

## 2.11 Creu Gwent Iachach

Bydd y strategaeth hon yn cyfrannu at greu Gwent iachach:
https://abuhb.nhs.wales/files/building-a-healthier-gwent/building-a-healthier-gwent-leaflet/

## 2.12 Gorchmynion Iechyd Coed a Phlanhigion

2.12.1 Mae Deddf Iechyd Planhigion 1967 yn grymuso Gweinidogion Cymru i wneud gorchmynion er mwyn atal plâu planhigion rhag cael eu cyflwyno a'u lledu.

2.12.2 ***Phytophthora ramorum***

Mae yna strategaeth rheoli clefydau ar waith yng Nghymru ar gyfer *Phytophthora ramorum.* Mae'r strategaeth hon yn trafod rheolaeth organeb tebyg i ffwng o'r enw *Phytophthora ramorum* sy'n effeithio ar goed llarwydd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol:
https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-05/phytophthora-ramorum-strategaeth-i-reolir-clefyd.pdf

2.12.3 ***Hymenoscyphus fraxineus* (gwywiad (Chalara) y coed ynn)**

Ffwng o'r enw *Hymenoscyphus fraxineus* sy'n achosi gwywiad coed ynn ac mae'n effeithio ar goed ynn gwyllt gan fwyaf. Erbyn hyn mae'r clefyd i'w weld yn eang yn Nhorfaen, ac mae'n amlygu mewn coed aeddfed yn ogystal â choed ifainc hunanhadog.

Ar hyn o bryd, nid oes angen gwneud unrhyw beth yn benodol onid oes Hysbysiad Iechyd Planhigion mewn grym. Serch hynny, pan fo onnen yn cyflwyno risg, dylid ei rheoli yn unol â Pholisi Coed presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Argymhellir hefyd y dylai cyrff cyhoeddus ystyried paratoi Cynllun Gweithredu ar gyfer Gwywiad Coed Ynn.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y dolenni canlynol: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/forestry/tree-health-and-biosecurity-1/chalara/?lang=en
https://treecouncil.org.uk/wp-content/uploads/2019/11/Tree-Council-Ash-Dieback-Toolkit-2.0.pdf





*Tystiolaeth o wywo mewn dau lasbren onn ger Abersychan.*

## 2.13 Polisi Cynllunio Cymru

2.13.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cyflwyno polisïau cynllunio ar gyfer defnydd tir Llywodraeth Cymru ac ategir ato gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol. Prif amcan Polisi Cynllunio Cymru yw sicrhau bod y system gynllunio yn cyfrannu at ddatblygu cynaliadwy ac yn gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol:
https://www.torfaen.gov.uk/cy/PlanningAndDevelopment/Planningpolicy/LocalDevelopmentPlan/Local-Development-Plan.aspx

2.13.2 Mae thema Lleoedd Unigryw a Naturiol PCC yn rhychwantu sawl maes testun gan gynnwys yr amgylchedd hanesyddol, tirwedd, bioamrywiaeth a chynefinoedd, nodweddion arfordirol, ansawdd aer, seinwedd, gwasanaethau dŵr, llifogydd a risgiau amgylcheddol eraill (ar y wyneb ac o dan y wyneb).

Cydnabyddir yn y thema hon fod coed yn cefnogi dyheadau yn ymwneud â thargedau ar gyfer aer glân ac atal llifogydd, gwella bioamrywiaeth, lleoliadau hanesyddol fel ardaloedd cadwraeth a pharciau a gerddi, a'u bod hefyd yn cyfrannu'n sylweddol at Asesiadau Seilwaith Gwyrdd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol: https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2018-12/polisi-cynllunio-cymru-rhifyn-10.pdf

## 2.14 Nodyn Cyngor Technegol 5: Cynllunio a Chadwraeth Natur

2.14.1 Mae'r Nodyn Cyngor Technegol hwn yn rhoi cyngor ynghylch sut y dylai'r system cynllunio defnydd tir gyfrannu at warchod a gwella bioamrywiaeth. Mae’n nodi'n fanwl sut y mae'n rhaid gwerthfawrogi coed, gwrychoedd a choetiroedd trwy'r system cynllunio defnydd tir.
Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol: https://gov.wales/technical-advice-note-tan-5-nature-conservation-and-planning

## 2.15 Nodyn Cyngor Technegol 10: Gorchmynion Cadw Coed

2.15.1 Mae awdurdodau cynllunio lleol wedi eu grymuso, er budd amwynder, i warchod coed a choetiroedd trwy wneud Gorchmynion Cadw Coed. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ddyletswydd ar awdurdodau cynllunio lleol i ddarparu'n ddigonol lle bo'n briodol ar gyfer cadw a phlannu coed wrth roi caniatâd cynllunio, trwy osod amodau a/neu gyflwyno Gorchmynion Cadw Coed.

2.15.2 Prif effaith Gorchymyn Cadw Coed yw atal coeden neu goed rhag cael eu cwympo, dadwreiddio, difrigo, tocio, difrodi’n fwriadol neu ddinistrio'n fwriadol heb ganiatâd yr awdurdod cynllunio lleol.

Mae rhagor o wybodaeth am Orchmynion Cadw Coed ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol https://llyw.cymru/nodyn-cyngor-technegol-tan-10-gorchmynion-cadw-coed



*Man gwyrdd trefol yn Nghwmbrân yn dangos coedlun o oed cyfartal gyda gwair wedi ei dorri'n fyr*

## 2.16 Cynllun Datblygu Lleol Torfaen

2.16.1 Mae Cynllun Datblygu Lleol Torfaen yn rhychwantu cyfnod hyd at 2021 ac yn cyflwyno'r strategaeth ddatblygu a pholisïau a chynigion manwl ar gyfer datblygu tir a defnyddio tir yn ardal Bwrdeistref Sirol Torfaen yn y dyfodol.

2.16.2 Ystyrir bod yr amcanion a'r polisïau canlynol sydd i'w cael yn y Cynllun Datblygu Lleol yn berthnasol i'r gwaith o reoli a gwella coed yn Nhorfaen.

**Amcanion y Cynllun Datblygu Lleol**

- Sicrhau dylunio o'r safon uchaf ym mhob datblygiad a sicrhau amgylcheddau diogel, iach ac atyniadol;

- Gwarchod, rheoli a gwella bioamrywiaeth a rhwydweithiau ecolegol ledled Torfaen;

- Lleihau effeithiau newid hinsawdd trwy allyrru llai o nwyon tŷ gwydr o ddatblygiadau newydd a datblygiadau sydd eisoes yn bodoli, ac addasu ar gyfer newid hinsawdd trwy ystyried ei effeithiau wrth ddylunio a lleoli datblygiadau newydd;

- Gwarchod a gwella cymeriad annwyl tirwedd Torfaen, gan gynnwys mannau agored pwysig a naws wledig rhwng aneddiadau.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol:
https://www.torfaen.gov.uk/en/PlanningAndDevelopment/Planningpolicy/LocalDevelopmentPlan/Local-Development-Plan.asp

## 2.17 Iechyd a Diogelwch a choed

2.17.1 Mae'r risg o gael eich taro a'ch lladd gan goeden neu gangen sy'n disgyn yn eithriadol o isel (oddeutu un i bob 10 miliwn ar gyfer y coed hynny sydd mewn ardaloedd sy'n cael eu defnyddio'n helaeth gan y cyhoedd, neu ger ardaloedd o'r fath). Serch hynny, efallai na fydd y cyhoedd yn gweld y risg isel yn y ffordd hon, yn enwedig yn dilyn digwyddiad.

2.17.2 Nid yw gwneud popeth sy'n rhesymol ymarferol yn golygu bod y rhaid archwilio pob coeden yn unigol, a hynny'n rheolaidd. Rhaid penderfynu beth sy'n rhesymol yn yr amgylchiadau, a bydd hyn yn cynnwys ystyried y risgiau y gallai pobl fod yn agored iddynt.

2.17.3 Mae yna sawl rheswm pam y gallai fod Awdurdodau Lleol (fel deiliaid y ddyletswydd) ac eraill eisiau rheoli eu stoc o goed, er enghraifft cyfrifoldebau dan ddeddfwriaeth arall a'r risg o gyfrifoldebau dinesig i:

- leihau'r risg o ddifrod i eiddo o ganlyniad i ymsuddiant;
- cynnal stociau er mwyn cadw eu gwerth o ran amwynder, cadwraeth a'r amgylchedd.
- atal anafiadau personol trwy ddisgyn a baglu ar lwybrau cerdded y mae gwreiddiau coed yn tarfu arnynt; ac

- atal difrod i gerbydau ac anafiadau personol oherwydd rhwystrau i weledeedd ar y briffordd.

Rhagor o wybodaeth:
https://www.hse.gov.uk/foi/internalops/sims/ag_food/010705.htm



*Gellir defnyddio pren wedi ei dorri fel pentyrrau cynefinoedd neu fel biomas.*

## 2.18 Coetiroedd i Gymru – Strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer Coetiroedd a Choed

2.18.1 Dyma Strategaeth 50-mlynedd Llywodraeth Cymru sy'n disgrifio'r math o goetiroedd y mae Llywodraeth Cymru yn dymuno eu gweld. Mae'n ceisio ehangu ymgysylltiad pobl â'r dirwedd goediog er mwyn sicrhau bod y dewis llawn o gyfleoedd a gwasanaethau yn hygyrch i bob rhan o'r gymdeithas. Dyma'r weledigaeth ar gyfer coetiroedd a choed:

***'Bydd Cymru yn adnabyddus am ei choetiroedd o ansawdd uchel sy'n gwella'r dirwedd, sy'n briodol i amodau lleol ac sydd â chymysgedd amrywiol o rywogaethau a chynefinoedd ac a fydd yn:***

- ***Darparu manteision cymdeithasol a chymunedol gwirioneddol, yn lleol ac yn genedlaethol;***
- ***Cefnogi diwydiannau ffyniannus sy'n gysylltiedig â choetiroedd; ac***
- ***Yn cyfrannu at amgylchedd o ansawdd gwell drwy Gymru gyfan.'***

2.18.2 Er bod y ddogfen gyfan hon yn berthnasol i'r gwaith y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn ei wneud i reoli coed a choetiroedd, mae'r paragraff canlynol a ddyfynnir o'r strategaeth hon yn arbennig o berthnasol i goetiroedd a choed trefol.

Mae Llywodraeth Cymru am weld coetiroedd a choed yn chwarae rôl sy'n cael ei gwerthfawrogi'n fwy fel elfennau o'r seilwaith gwyrdd yn ardaloedd trefol Cymru ac o'u hamgylch. Mae coed trefol yn lleihau llygredd aer a sŵn a'r materion iechyd y cyhoedd sy'n gysylltiedig â nhw, ac mae hamdden awyr agored mewn coetiroedd trefol yn gwella llesiant corfforol a meddyliol. Gall coetiroedd trefol hefyd ddarparu ffocws ar gyfer gweithredu a gwirfoddoli cymunedol, gan helpu i gynyddu cyfalaf cymdeithasol, gwella cydlyniant cymunedol a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.

2.18.3 Hoffai Llywodraeth Cymru i Awdurdodau Lleol weithredu yn y ffyrdd canlynol:

- Coetiroedd a choed yn cael eu defnyddio'n fwy creadigol yn y seilwaith gwyrdd mewn ardaloedd trefol ac o'u hamgylch (e.e. datblygiadau newydd ac adfer safleoedd diwydiannol, llwybrau teithio llesol a choridorau gwyrdd), er mwyn darparu mannau gwyrdd hygyrch o ansawdd gwell i bobl;
- Awdurdodau lleol ac eraill yn datblygu eu rhaglenni plannu coed trefol a rheoli coetiroedd ymhellach;
- Bas data coed y Cyngor neu adnoddau tebyg yn parhau i gael eu defnyddio i fesur adeiledd ac effeithiau amgylcheddol coed trefol ac asesu eu gwerth i gymdeithas.
- Mynediad i goetiroedd trefol yn cael ei wella, yn arbennig ar gyfer pobl nad oes ganddynt fynediad hawdd i fannau gwyrdd ar hyn o bryd.
- Awdurdodau lleol, tirlunwyr, penseiri a rhanddeiliaid perthnasol eraill yn sicrhau bod manteision amgylcheddol coed o ran addasu'r microhinsawdd a systemau draenio, yn cael eu hystyried mewn canllawiau cynllunio a gwaith rheoli datblygu, ac wrth greu systemau draenio trefol cynaliadwy.
- Hyrwyddo'r neges bod coetiroedd a choed trefol yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at lawer o agendâu polisi eraill, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â newid yn yr hinsawdd, iechyd a lles cymdeithasol, dysgu gydol oes a bioamrywiaeth, a gweithgarwch rheoli adnoddau dŵr a phridd.

Yng nghyd-destun y strategaeth hon, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i greu **Coedwig Genedlaethol i Gymru** i greu ardaloedd o goetir newydd a helpu i adfer a chynnal rhai o'n coetiroedd hynafol anadferadwy.

Rhagor o wybodaeth: https://llyw.cymru/coetiroedd-i-gymru-strategaeth?_ga=2.264008010.797386473.1600076330-694971714.1595846536



*Coeden dociedig hynod*

## 2.19 Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (2016)

2.19.1 Mae'r adroddiad hwn yn un o ofynion Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'n nodi bod yn rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru baratoi a chyhoeddi adroddiad ar sefyllfa natur yng Nghymru.

2.19.2 Dyma'r prif negeseuon o'r adroddiad hwn ar gyfer coetiroedd ac amgylcheddau trefol (gorchudd coed ar strydoedd):

- Mae arwynebedd coetiroedd yng Nghymru bron deirgwaith yn fwy nawr o gymharu â'r 1800au. Fodd bynnag, Cymru yw un o'r gwledydd lleiaf coediog yn Ewrop (14.8% o arwynebedd y tir o gymharu â chyfartaledd o 38% yn yr Undeb Ewropeaidd).

- Mae 40% o goetiroedd Cymru yn cael eu rheoli rhywfaint, neu ddim yn cael eu rheoli o gwbl, ac mae hyn yn lleihau cadernid y coetiroedd a'u gallu i ddarparu buddion llesiant. Mae coetiroedd darniog yn straen sylweddol sy'n effeithio ar y cyflwr brodorol. Mae yna bron i 22,000 o goetiroedd wedi eu nodi fel rhai sy'n llai na 2.0 hectar.

- Nid yw cyfanswm arwynebedd coetiroedd yng Nghymru wedi newid fawr ddim yn yr 20 mlynedd ddiwethaf. Mae cyfraddau creu coetiroedd newydd yn isel. Mae newid hinsawdd eisoes wedi effeithio ar gyflwr ac ehangder coetiroedd yng Nghymru a bydd yr effaith hon yn parhau yn y dyfodol. Mae iechyd coed eisoes yn dirywio. Bydd y straen o ganlyniad i blâu a chlefydau

yn cynyddu yn y dyfodol. Amcangyfrifir bod coetiroedd Cymru yn dal ac yn storio tua 1,419.000 tunnell o garbon bob blwyddyn.

Rhagor o wybodaeth: https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy

# 3. Y STRATEGAETH



*Mae coed yn ychwanegu at gymeriad a nodweddion ecolegol y gamlas yn Nhŷ Coch, Cwmbrân.*

## 3.1 Rheoli Coed

3.1.2 Mae coed yn nodweddion naturiol deinamig sy'n darparu amrywiaeth o wasanaethau sydd o fudd i'r gymdeithas. Fodd bynnag, er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cael eu huchafu, mae gofyn archwilio a rheoli coed yn rheolaidd. Yn aml, bydd cynnal a chadw coed trefol yn gyfuniad o gamau gweithredu sy'n seiliedig ar gyngor arbenigol Swyddog Coed Torfaen. Gallai'r camau gweithredu gynnwys codi corunau, tocio a phrysgoedio, a dim ond mewn achosion prin yr ystyrir cael gwared ar goeden. Fel arfer argymhellir gwaredu coeden yn gyfan gwbl dim ond pan fo coeden wedi marw, yn marw neu yn cynnal clefyd sy'n andwyol i ddiogelwch y goeden. Er mwyn cynnal ehangder y brigdwf coed yn Nhorfaen (gweler Adroddiad Brigdwf Coed Cyfoeth Naturiol Cymru), argymhelliad y Strategaeth Coed hon yw rhaglen o waith plannu coed newydd yn lle coed a gwympwyd fel y trafodir yn yr adran hon.

## 3.2 Coed sy'n eiddo preifat

Ni ddylid tanamcanu gwerth coed mewn parciau a gerddi preifat i Seilwaith Gwyrdd Torfaen. Maent yn cyfrannu'n sylweddol at y brigdwf yn ardaloedd trefol Torfaen. Mewn rhai ardaloedd fel Abaty Llantarnam, mae coed yn gallu gosod

cymeriad nodweddion adeiledig hanesyddol. Nodwedd o leoliadau trefol mwy cyfoes, er enghraifft Tref Newydd Cwmbrân yw'r coed helaeth sydd wedi eu plannu ar hyd y strydoedd a'r datblygiadau tai sydd wedi eu fframio gan flociau o goetiroedd hynafol a gadwyd. Dylai perchnogion fynd ati i reoli coed er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn cael eu cynnal a chadw'n dda.

### 3.3 Coed sy'n eiddo cyhoeddus

3.3.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gyfrifol am ddiogelwch a rheolaeth pob coeden ar dir ac eiddo y mae'n berchen arnynt, ac eithrio mewn amgylchiadau pan fo'r tir ar osod, er enghraifft i glybiau chwaraeon, a lle bo rheolaeth y coed wedi'i amlygu'n glir yn amodau cytundeb y brydles.

### 3.4 Gwaith rheoli coed rhagweithiol

3.4.1 Ar hyn o bryd, mae gwaith rheoli coed y cyngor yn cael ei wneud ar sail ymatebol ac mae rhywfaint o raglen gynnal a chadw wedi ei chynllunio ar waith. Lle bo angen gwaith rheoli, bydd hyn yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau hirhoedledd y goeden neu'r coed sy'n cael eu rheoli.

3.4.2 Bydd unrhyw waith ar goed yn ceisio cadw at yr argymhellion a gyflwynir yn Safon Prydeinig BS 3998:2010. Bydd gan bob aelod o staff y cyngor a phob contractor sy'n gwneud gwaith ar goed y cymwysterau a'r hyfforddiant priodol gan gynnwys gwybodaeth am rywogaethau a warchodir.

### 3.5 Rhywogaethau a warchodir a'r ddyletswydd bioamrywiaeth ar gyrff cyhoeddus

3.5.1 Lle bo posibilrwydd y gallai gwaith ar goed effeithio ar rywogaethau a warchodir yn gyfreithiol, er enghraifft ystlumod ac adar sy'n nythu, rhaid ystyried hyn wrth ddod i benderfyniadau ynghylch rheoli coed. Pan fo angen gwneud gwaith brys ar goeden er mwyn rheoli risg iechyd a diogelwch, argymhellir gofyn am gyngor ecolegydd hollol gymwys cyn dechrau. Lle na fo hyn yn bosibl, dylai'r gwaith fynd yn ei flaen mewn ffordd sy'n rhesymol ac yn briodol, gan gynnwys addasiadau i arferion gweithio er mwyn lleihau'r risg o wrthdaro gyda deddfwriaeth bioamrywiaeth. Rhaid ystyried, er y bydd penderfyniad i gwympo neu reoli coeden yn cydymffurfio â rhwymedigaethau iechyd a diogelwch ayb., nid yw hyn yn disodli'r gyfraith ynghylch rhywogaethau a warchodir.

### 3.6 Nodweddion coed a bioamrywiaeth

3.6.1 **Iorwg:** Prin iawn y bydd iorwg yn achosi difrod uniongyrchol sylweddol i goeden sy'n ei gynnal ac felly fel arfer dylid ei gadw oherwydd ei werth o ran bioamrywiaeth. Mae iorwg yn ffynhonnell fwyd werthfawr i famaliaid, adar a phryfed, ac yn darparu safleoedd nythu a chlwydo i ystlumod ac adar. Gellir cyfiawnhau eithriadau i hyn trwy bryderon iechyd a diogelwch a lle bo iorwg sy'n tyfu ar goed sbesimen yn gallu cael ei weld fel elfen sy'n tynnu sylw'n weledol mewn lleoliadau mwy ffurfiol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol: http://www.canonburysociety.org.uk/pdf-files/APN10%20Ivy%20-%20Boon%20or%20Bane.pdf

3.6.2 **Coed marw sy'n dal i sefyll:** Mae pren sy’n pydru yn werthfawr i fioamrywiaeth. Lle bo'n ddiogel ac yn rhesymol gwneud hynny, bydd cyfleoedd i gadw peth pren marw yn gymorth i warchod a gwella bioamrywiaeth mewn ffordd sy'n gyson â dyletswydd bioamrywiaeth cyrff cyhoeddus Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael trwy glicio ar y ddolen ganlynol:
http://www.forestresearch.gov.uk/documents/4947/RIN241.pdf

3.6.3 **Coed marw sydd wedi cwympo:** Mewn perthynas â'r adran uchod ynghylch coed marw sy'n dal i sefyll, lle na ellir cadw pren marw fel nodwedd fioamrywiaeth sy'n sefyll, ystyrir ei gadw fel pren marw sydd wedi cwympo. Lle bo'n ddiogel ac yn rhesymol gwneud hynny, bydd yn agos at y goeden sydd wedi cael ei chwympo neu reoli, ond os nad yw hyn yn bosibl gellir gosod pren marw sydd wedi cwympo mewn lleoliad mwy cyfleus, er enghraifft mewn coetir cyfagos. Gellir hefyd cynnwys pren marw mewn pentyrrau cynefin ynghyd â deunydd coediog eraill a dorrwyd.

3.6.4 **Deunydd coediog a dorrwyd:** Lle bo'n ddiogel gwneud hynny, dylid cadw pren marw a deunydd coediog eraill a dorrwyd mor agos â phosibl at y lleoliad o ble y daeth. Gellir gadael y deunydd hwn ar hap neu ei gasglu a'i osod mewn pentyrrau cynefinoedd. Gellir gadael pentyrrau o falurion a changhennau llai at yr un diben. Efallai nad yw'r nodweddion hyn yn edrych yn daclus bob tro, ond, yn gyffredinol, mae yna lefelau is o fioamrywiaeth mewn amgylchedd naturiol sy'n rhy daclus.

3.6.5 Weithiau, hefyd, mae'n fuddiol gadael boncyffion coed cyfan ar y tir. Cynlluniwyd hyn hefyd er mwyn galluogi i'r broses bydru naturiol gymryd lle. Yn anffodus, yn aml mae rhai pobl yn gweld y nodweddion hyn fel nodweddion anniben neu ffynhonnell rad ac am ddim ar gyfer pren i'r llosgwr pren, er enghraifft. Mae mynd â phren heb ganiatâd perchennog y tir, yn gallu cael ei weld fel dwyn.





*Diagram i ddangos nodweddion coeden hynod*

### 3.7 Rheoli prysg (coed) er gwarchod natur.

3.7.1 Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn gyfrifol am reoli Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ar yr ucheldir, saith Gwarchodfa Natur Leol, a sawl Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur. Mae rheoli prysg (coed ifainc i goed canolig) ar lawer o'r safleoedd hyn yn hanfodol, ac yn achos Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Blorens, mae yna rwymedigaeth gyfreithiol ar y cyngor i weithio tuag at wella'r cynefin hwn trwy gael gwared ar binwydd polion hunanhadog.

3.7.2 Mae gofyn rheoli prysg er mwyn atal cynefin mwy dymunol rhag diflannu. Fodd bynnag, gall fod yn anodd lleihau prysg a gall alw am lawer o adnoddau. Ymhellach, nid yw torri prysg ynddo'i hun yn arwain at gael ei wared bob tro. Argymhellir y dull canlynol er mwyn rheoli prysg:

1. Dull cynnar o waredu;

2. Wrth weithredu ar gam cynnar, sicrhewch fod y gwreiddiau'n cael eu tynnu neu'r bonion yn cael eu trin;

3. Cyn gwneud unrhyw beth i waredu prysg, sicrhewch fod trefn reoli mewn lle er mwyn dilyn i fyny ar y gwaith, fel cymorth i atal ailgytrefu.

### 3.8 Rheoli risgiau coed

3.8.1 Mae risgiau yn bodoli yn ein gweithgareddau bob dydd, a'r ffordd o reoli'r risgiau hyn a'u trafod yw dewis mewn ffordd ddeallus. Mae yna risg gan goeden sy'n disgyn dim ond os oes posibilrwydd y gallai'r goeden ddisgyn ac iddi achosi niwed o ganlyniad. Mae Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn cydnabod bod y risg y bydd coed yn disgyn yn isel iawn, yn gyffredinol, a bod y risgiau uchel dim ond mewn ardaloedd lle mae yna lawer o bobl. Pan fo nifer y bobl yn fach, fel arfer ni fydd gofyn asesu coed i chwilio am wendidau. Nid yw gwneud popeth sy'n rhesymol ymarferol yn golygu bod angen archwilio pob coeden yn unigol, a hynny'n rheolaidd. (Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch 2013)
http://www.hse.gov.uk/foi/internalops/sims/ag_food/010705.htm

3.8.2 Nod y Strategaeth hon a'r Cynllun Gweithredu hwn yw hybu dull cytbwys o reoli risg coed. Mewn dogfen a gynhyrchwyd gan y Grŵp Diogelwch Coed Cenedlaethol, mae'r risgiau i'r cyhoedd yn cael eu gosod yn eu cyd-destun yn erbyn buddion coed i'r gymdeithas. Mae A *Common Sense Risk Management of Trees: Guidance on Trees and Public Safety in the UK for Owners, Managers and Advisors* (2011) yn cael ei ardystio gan Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac yn rhoi canllawiau ar gyfer archwilio a chynnal a chadw coed mewn ffordd sy'n rhesymol ac yn gymesur â risg isel coed, buddion coed a rhwymedigaethau iechyd a diogelwch perchnogaeth coed cyfrifol.

Mae rhai awdurdodau lleol yng Nghymru bellach yn defnyddio technegau asesu risg coed. Un dull o'r fath yw QTRA (Asesiad Risg Coed Meintioledig) sy'n galluogi'r aseswr i adnabod a dadansoddi'r risg o fethiant mewn coeden mewn tri cham allweddol.

1. Ystyried defnydd tir o ran pa mor agored ydyw i ardrawiad a thebygolrwydd o feddianiad;
2. Ystyried canlyniadau ardrawiad, gan ystyried maint y goeden neu'r gangen dan sylw;
3. Amcangyfrif y tebygolrwydd y bydd y goeden neu'r gangen yn disgyn ar y defnydd tir dan sylw.



*Mae coed yn ychwanegu gwerth at goridorau ecolegol strategol fel yr Afon Lwyd*



*Adfer gwrychoedd ar dir sy'n eiddo i'r cyngor*



*Coeden hynod wedi ei rheoli mewn ffordd gynaliadwy ar ochr y ffordd ym Mlaenafon*



*Cerflun ym Mharc Pont-y-pŵl a grëwyd o bren o ffynhonnell leol*



*Marciwr ffordd o bren o ffynhonnell gynaliadwy yn Safle Treftadaeth Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon*

## 3.9 Defnyddio pren o ffynonellau lleol mewn ffyrdd cynaliadwy

3.9.1 Mae defnyddio pren o ffynonellau lleol mewn ffyrdd cynaliadwy yn lleihau allyriannau CO2. Gellir cloi carbon i fyny pan fydd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer defnyddiau adeiladu, gwaith celf pren ynghyd â nodweddion eraill fel ffensys, sticlau a mynegbyst. Mae troi coed yn bren a phren yn gynnyrch celf a chrefft a dodrefn yn gallu ychwanegu gwerth economaidd at goed.

3.9.2 Mae yna rai enghreifftiau da iawn o gynnyrch wedi eu gwneud o bren lleol yn Nhorfaen. Mae gwaith celf ym Mharc Pont-y-pŵl, Gwarchodfa Natur Leol Coridor Cwmafon a Chysylltiad Glanyrafon Pont-y-pŵl oll wedi cynnwys gwaith celf o bren a dorrwyd. Ymhellach, gwnaethpwyd llawer o'r postion marcio ffordd a ddefnyddiwyd yn Safle Treftadaeth Byd Tirwedd Ddiwydiannol Blaenafon o bren lleol. Mae'r postion hyn nawr yn cael eu cytrefu gan fwsogl a chennau, ac mae hyn yn ychwanegu at eu cymeriad a'u gwerth ecolegol. Bydd pren o ffynonellau lleol yn parhau i gael ei ddefnyddio lle bynnag y bo hynny’n bosibl.

## 3.10 Y polisi ar gyfer rheoli ymholiadau am goed

3.10.1 Os bernir bod coeden y iach ac yn ddiogel, nid oes gofyniad cyfreithiol i ymgymryd â gwaith ar y goeden. Fodd bynnag, gellir ystyried gwaith sy'n gyson â gweithdrefnau rheoli coed cadarn.

3.10.2 Bydd y pedwar math canlynol o goeden yn cael eu hystyried ar gyfer gwaith cwympo neu docio:

**Wedi Marw** - Coeden sydd ddim yn cynhyrchu unrhyw dyfiant mwyach, ac sy'n cael ei hasesu fel un sy'n debygol o gyflwyno risg yn y tymor byr i ganolig.

**Yn Marw -** Rhaid ystyried bod coeden a nodir fel un sy’n marw, yn marw'n derfynol cyn penderfynu ei chwympo. Mae dangos rhywfaint o bydru neu wywo sydd ddim o angenrheidrwydd yn derfynol yn nodweddiadol o rai o’r coed hynafol, hynod ac aeddfed.

**Afiach -** Coeden sydd â ffwng pathogenaidd a fydd yn achosi marwolaeth y goeden yn y tymor hir. Gall rhai o'r coed sy'n cynnal ffwng oroesi am sawl blwyddyn, felly bydd coed sy'n dangos pydredd ffwngaidd difrifol yn cael eu blaenoriaethu i'w cwympo neu dderbyn camau rheoli addas eraill. Bydd coed sy'n ddarostyngedig i Orchymyn Iechyd Planhigion hefyd yn cael eu cwympo.

**Peryglus -** Bydd coeden sydd wedi cael ei difrodi ac sydd, o ganlyniad, yn cael ei gweld fel risg, yn cael ei hystyried ar gyfer gwaith rheoli priodol gan gynnwys cwympo lle mai dyma'r unig gam sy'n briodol.

## 3.11 Ceisiadau gan y cyhoedd am waith ar goed

3.11.1 Mae’r Cyngor yn cael cannoedd o ymholiadau bob blwyddyn ynghylch cael gwaith wedi ei wneud ar goed sy’n cael eu gweld fel rhai sy’n achosi problem i drigolion a/neu eiddo. Er y bydd gofyn cymryd camau priodol ar gyfer rhai ymholiadau, mae yna lawer o ymholiadau sydd ddim yn cydymffurfio â Pholisi Coed presennol Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ac felly maent yn cael eu gwrthod. Mae’r rhestr ganlynol o ymholiadau neu seniaros cyffredin yn diweddaru polisi a gweithdrefnau gweithredol y Cyngor ar gyfer materion o’r fath.

**Dail yn Disgyn**

***Ni fydd y Cyngor yn cwympo nac yn tocio coeden i gael gwared neu leihau dail sy'n disgyn ar eiddo preifat.***

Mae dail yn cwympo oddi ar goed yn yr hydref ac ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn, yn enwedig yn ystod cyfnodau o wynt uchel, ac mae hyn yn broses naturiol na ellir ei hosgoi. Mae’r cyngor yn cynnal gwasanaethau glanhau strydoedd mewn ardaloedd lle bo croniad dail yn cyflwyno perygl. Mae cynnal a chadw cafnau dŵr ac ati i sicrhau nad oes unrhyw ddail ynddynt, yn gyfrifoldeb ar berchennog yr eiddo a/neu berchennog y tir.

**Coed sy'n crogi drosodd a/neu wreiddiau sy'n mynd i mewn i erddi**

***Ni fydd y Cyngor yn cwympo nac yn tocio coeden sy'n crogi dros eiddo cyfagos oni ystyrir bod y goeden/coed yn beryglus neu'n achosi niwsans sy'n cyfiawnhau gweithredu.***

Nid oes rhwymedigaeth gyfreithiol i reoli coed sy'n crogi drosodd onid oes modd dangos eu bod yn achosi difrod neu mewn perygl dybryd o ddisgyn. Mae'r dull gweithredu hwn yn gyson â rhwymedigaethau'r Cyngor fel perchennog miloedd o goed, a'r adnoddau sydd ar gael. Mae yna lawer o goed sy'n crogi dros ffiniau, a ni fyddai rheoli'r holl asedau hyn i leihau trosgrogi yn ddefnydd da o adnoddau cyhoeddus a byddai'n arwain at golled sylweddol i frigdwf coed.

Mae'n gyffredin i wreiddiau coed ar dir Cyngor cyfagos i ymddangos mewn gerddi. Ni ellir rheoli'r gwreiddiau hyn trwy docio. Serch hynny, lle bo modd dangos bod gwreiddiau yn eithriadol ac yn ddifrifol ac yn debygol o achosi difrod strwythurol, bydd y rhain yn cael sylw fesul achos.

**Coed sy'n cyffwrdd â strwythurau adeiledig**

***Lle bo modd dangos bod coeden sy'n eiddo i'r Cyngor yn cyffwrdd â strwythur adeiledig ar eiddo preifat, bydd y Cyngor yn ystyried cymryd camau priodol i gael gwared ar yr effaith neu i leihau yr effaith.***

Bydd y Cyngor yn tocio coed fel nad ydynt yn cyffwrdd â strwythurau adeiledig. Mewn rhai achosion, efallai y bydd gofyn cwympo coeden. Bydd hyn yn cael ei ystyried fel yr opsiwn olaf un yn unig, a hynny fesul achos.

**Coed a difrod i strwythurau adeiledig**

***Ym mwyafrif yr achosion, nid yw coed sy'n tyfu ger strwythurau adeiledig yn achosi unrhyw drafferthion. Lle darperir tystiolaeth na ellir ei gwadu sy'n dangos mai coeden sy'n eiddo i'r Cyngor sy’n achosi'r difrod, bydd yn cymryd camau cymesur a phriodol fesul achos.***

Yn aml, nid oes sail i bryderon fod gwreiddiau coed yn achosi difrod ger adeiladau ayb. Mae effeithiau uniongyrchol yn ganlyniad i bwysau posibl gwreiddiau a/neu foncyffion coed. Gallai hyn effeithio ar strwythurau isel eu llwyth fel siediau gardd. Nid yw'n debygol fod gwreiddiau coed yn treiddio i sylfeini cadarn. Lle darperir tystiolaeth sy'n dangos bod coeden dan berchnogaeth y Cyngor yn achosi difrod, cymerir camau fesul achos.

**Cysgod**

***Fel arfer, ni wneir gwaith ar goed er mwyn lleihau cysgod rhag olau uniongyrchol gan yr haul dros eiddo cyfanheddol.***

Fel arfer, ni ystyrir ceisiadau i waredu neu reoli coed er mwyn lleihau niwsans honedig oherwydd gor-gysgodi. Nid oes hawl gyfreithiol i olau uniongyrchol gan yr

haul ac nid oes rhagdybiaeth y bydd coed sy'n taflu cysgod dros adeiladau sydd eisoes yn bodoli, neu strwythurau eraill, yn cael eu gwaredu am y rheswm hwn.

Serch hynny, lle bo modd dangos bod coeden neu goed yn wirioneddol atal golau'r haul rhag cyrraedd ystafelloedd cyfanheddol i raddau eithriadol, difrifol ac afresymol, gellir delio â'r rhain fesul achos. Bydd mân waith yn cael ei ffafrio dros gwympo coed bob tro, fodd bynnag byddai gofyn i unrhyw benderfyniad ystyried iechyd ac arwyddocâd y goeden, ei chyfraniad at amwynder cyhoeddus ehangach, ei harwyddocâd ecolegol, cyfeiriadedd y tŷ a ph’un ai bod y goeden yn bresennol yn barod pan symudodd y deiliad i'r eiddo. Fel y nodwyd, disgwylir mai mewn amgylchiadau eithriadol yn unig y bydd coed yn cael eu rheoli neu waredu am eu bod yn taflu cysgod gormodol. Lle bo hyn yn digwydd, efallai y codir tâl yn ôl disgresiwn er mwyn talu am gost y gwaith.

**Rhwystro golygfa**

***Ni wneir gwaith ar goed er mwyn gwella'r olygfa o eiddo preswyl neu fusnes.***

Nid oes hawl gyfreithiol i olygfa. Mae llystyfiant a choed yn tyfu gydag amser, gan ddarparu amrywiaeth o wasanaethau ecosystem. Mae yna bosibilrwydd y gallai gwaredu pob coeden er mwyn caniatáu golygfa, gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd ac effaith andwyol ar amwynder cyhoeddus.

**Ystyrir bod y goeden yn rhy fawr**

***Ni fydd y cyngor yn tocio nac yn cwympo coeden sy'n eiddo i'r cyngor oherwydd ystyrir ei bod yn rhy fawr.***

Efallai y bydd trigolion yn pryderu am faint coeden gyfagos ac yn teimlo ei bod yn beryglus. Serch hynny, nid yw coed yn beryglus dim ond am eu bod yn rhy fawr neu'n rhy dal ac yn symud yn y gwynt. Mae coed yn symud yn naturiol ac mae hyn yn eu galluogi i addasu at wyntoedd cryfion.

**Coed a draeniau**

***Ni fydd y cyngor yn cwympo, yn tocio nac yn torri gwreiddiau coeden er mwyn atal ei gwreiddiau rhag mynd i mewn i ddraen sydd eisoes wedi ei difrodi.***

Ni fydd y cyngor fel arfer yn cymryd camau mewn ymateb i gŵynion fod coed yn difrodi draeniau. Nid yw gwreiddiau coed yn gallu difrodi draeniau cadarn, ond gallent fanteisio ar y rheiny sydd eisoes wedi eu difrodi. Mae gwreiddiau mewn system ddraenio yn gallu dangos bod angen cynnal a chadw'r draeniau.

**Coed sy'n eiddo preifat ac sy'n crogi dros eiddo preifat cyfagos**

***Mae coed sy'n eiddo preifat ac sy'n crogi dros eiddo cyfagos yn gyfrifoldeb ar y perchennog yn llwyr.***

Sgwrs gynnar gyda pherchnogion eiddo preifat cyfagos yw'r opsiwn cyntaf bob tro wrth geisio datrys mater yn ymwneud â choed neu wrychoedd. Mae'r materion hyn

yn rhai preifat neu ddinesig ac yn cael eu trafod yn gyfan gwbl trwy'r sawl sy'n gysylltiedig.

**Anghydfod ynghylch coed a gwrychoedd rhwng perchnogion tir preifat**

***Fel y soniwyd uchod yn 4.5.9 y ffordd orau o roi sylw i faterion yn ymwneud â gwrychoedd a choed ar eiddo cyfagos yw trafod gyda'r sawl sy'n gysylltiedig neu gael cyngor cyfreithiol annibynnol. Nid yw anghydfod ynghylch coed ar dir preifat yn rhan o gylch gwaith y cyngor. Fodd bynnag, mae yna ddeddfwriaeth ar waith i ymdrin â Gwrychoedd neu Berthi Uchel.***

**Coed a phaneli ffotofoltäig**

**Ni fydd y cyngor yn tocio nac yn cwympo coeden sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn hwyluso'r gwaith o osod neu wella golau naturiol ar gyfer panel ffotofoltäig (solar).**

Er bod y cyngor yn cydnabod rôl paneli ffotofoltäig o ran eu cyfraniad at liniaru newid hinsawdd, mae gan goed gyfraniad pwysig hefyd. Rhaid gwerthfawrogi'r ffaith fod coed yn bresennol wrth ystyried lleoliad addas ar gyfer gosod paneli solar.

**Signal teledu, band eang, ffôn a lloeren**

***Ni wneir gwaith ar goed er mwyn gwella signal y gwasanaethau uchod lle na fyddai gofyn gwneud gwaith ar y coed dan sylw fel arall.***

Mae'r cyngor yn cydnabod pwysigrwydd y gwasanaethau uchod yn y gymdeithas sydd ohoni, a phwysigrwydd y rhain i drigolion. Fodd bynnag, rhaid sicrhau cydbwysedd rhwng technoleg a'r gwasanaethau ecosystem ehangach a ddarperir gan goed. Dylai trigolion geisio atebion amgen rhesymol er mwyn gwella signal y gwasanaethau hyn yn hytrach na gofyn i'r cyngor wneud gwaith ar goed.

**Dyddodion mêl-gawod**

***Ni fydd y cyngor yn tocio nac yn cwympo coeden sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn cael gwared ar effaith dyddodion mêl-gawod oddi ar goed.***

Mae sawl rhywogaeth coed stryd yn dueddol o ddenu pryf glas ac yn ganlyniad yn cynhyrchu mêl-gawod. Mae mêl-gawod yn ddyddodyn tymhorol, gludiog, naturiol sy'n amrywio o flwyddyn i flwyddyn. Dylid sicrhau cydbwysedd rhwng unrhyw anghyfleustra y mae hyn yn ei achosi a buddion amgylcheddol ehangach coed stryd trefol.

Cynghorir trigolion i wneud trefniadau er mwyn lleihau'r broblem hon trwy ddod o hyd i le arall i barcio lle bo hynny'n bosibl. Lle bo mêl-gawod yn effeithio ar geir, bydd dŵr cynnes a digon o sebon yn cael gwared arno'n hawdd heb achosi unrhyw ddifrod hirdymor.

**Baw adar**

***Ni fydd y cyngor yn tocio nac yn cwympo coeden sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn cael gwared ar y risg o faw adar.***

Mae baw adar yn gallu bod yn anghyfleus ond ni ystyrir bod hyn yn broblem sy’n ddigon mawr i gyfiawnhau tocio neu gwympo coeden. Gwarchodir adar dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y diwygiwyd). Fel arfer, bydd dŵr cynnes a digon o sebon yn ddigon i gael gwared ar faw adar.

**Cnau/Aeron/Blodau ayb.**

***Ni fydd y cyngor yn tocio nac yn cwympo coeden sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn cael gwared ar risg cnau, aeron a blodau ayb.***

Mae'n naturiol bod ffrwythau, cnau, aeron a blodau yn disgyn a gwelir hyn fel mân anghyfleustra tymhorol. Mae coed sy'n dwyn ffrwyth yn ychwanegu amrywiaeth at yr amgylchedd trefol ac yn cynnal bioamrywiaeth.

**Pryfed**

***Ni fydd y cyngor yn tocio nac yn cwympo coeden sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn cael gwared ar bryfed sy'n peillio er enghraifft picwn a gwenyn.***

**Paill**

***Ni fydd y cyngor yn tocio nac yn cwympo coeden sy'n eiddo i'r cyngor er mwyn lleihau'r paill y mae'n ei ryddhau.***

**Coed sy'n effeithio ar deledu cylch cyfyng**

***Ni fydd y cyngor fel arfer yn rheoli coed sy'n effeithio ar weithrediad teledu cylch cyfyng sy'n eiddo preifat.***

Lle bo'r coed yno cyn gosod y teledu cylch cyfyng, ystyrir rheoli coed dim ond os oes tystiolaeth eu bod yn effeithio ar weithrediad y camera.

Tabl 1. Canllaw cyfeirio cyflym i rwymedigaethau polisi coed yr awdurdod.

| **Mater yn Ymwneud â Choed**<br>Noder: Gweler testun y polisi am esboniad llawn | **Gweithredu** | | |
|---|---|---|---|
| | **Ie** | **Na** | **Efallai** |
| 1. Dail yn disgyn | | ✓ | |
| 2. Coed yn crogi drosodd/gwreiddiau yn mynd i dir arall | | ✓ | |
| 3. Coeden yn cyffwrdd ag adeilad. | | | ✓ |
| 4. Coed a difrod i adeilad. | | | ✓ |
| 5. Cysgod | | ✓ | |
| 6. Rhwystro golygfa | | ✓ | |
| 7. Ystyrir bod y goeden yn rhy fawr | | ✓ | |
| 8. Coed a draeniau | | ✓ | |
| 9. Coed sy'n eiddo preifat yn crogi | | ✓ | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| dros eiddo arall | | | |
| 10. Anghydfod ynghylch coed a gwrychoedd | | ✓ | |
| 11. Coed a Phaneli Ffotofoltäig | | ✓ | |
| 12. Signal teledu, band eang, ffôn a lloeren. | | ✓ | |
| 13. Dyddodion mêl-gawod | | ✓ | |
| 14. Baw adar | | ✓ | |
| 15. Cnau/Aeron/Blodau | | ✓ | |
| 16. Pryfed | | ✓ | |
| 17. Paill | | ✓ | |
| 18. Coed yn effeithio ar deledu cylch cyfyng | | | ✓ |

### 3.12 Plannu Coed yn lle Coed a Gwympwyd

3.12.1 Yn amodol ar yr adnoddau sydd ar gael, bydd y Cyngor yn gofyn am osod coeden newydd yn lle pob coeden a gwympwyd. Er mwyn sicrhau bod y stoc coed yn cael ei chynnal a chadw, bydd cymhareb y coed newydd i gymryd eu lle yn amrywio yn ôl brigdwf y goeden a gwympwyd neu sy'n mynd i gael ei chwympo. Po fwyaf yw'r goeden, y mwyaf o goed fydd eu hangen i gymryd ei lle. Diben hyn yw sicrhau na fydd stoc coed Torfaen yn parhau i ddirywio a'i bod yn cael ei sicrhau er budd cenedlaethau'r dyfodol.

3.12.2 Efallai na fydd yn bosibl plannu coeden yn yr un lleoliad neu'r un safle â'r un a gollwyd, ond argymhellir bod y dull o blannu coed newydd yn dilyn yr egwyddor o blannu mor agos ag sy'n ymarferol bosibl at y goeden a gollwyd. Dylai pob coeden sy'n cael ei phlannu yn lle coeden arall gael ei phlannu o fewn un flwyddyn galendr a dylai'r wybodaeth berthnasol gael ei lanlwytho i raglen cofnodi coed Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen.

3.12.3 Bydd Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Torfaen a phrosiect Grid Gwyrdd Trefol Torfaen yn rhoi arweiniad strategol ynghylch y lle gorau i blannu coed yn lle coed a gwympwyd ac yn gymorth i oleuo'r cymarebau plannu coed.

### 3.13 Datblygu dull strategol o weithredu ar gyfer plannu coed newydd ar strydoedd ac mewn coetiroedd

3.13.1 Fel y soniwyd uchod, bydd gofyn plannu coed newydd er mwyn cymryd lle coed a gollwyd ac er mwyn cyfoethogi stoc coed bresennol Torfaen. Ochr yn ochr â choed newydd ar hyd strydoedd, awgrymir datblygu rhaglen o blannu coed newydd mewn coetiroedd. Dylai unrhyw waith i blannu coed newydd mewn coetiroedd fynd ati mewn ffordd strategol ac annog plannu mewn ffordd sy'n uchafu gwasanaethau ecosystem ac yn helpu cyfoethogi ein Seilwaith Gwyrdd. Wrth blannu, dylid blaenoriaethu mannau gwyrdd sy'n eiddo i'r Cyngor, ond rhaid bod hyn yn sicrhau na chyfaddawdir ar amwynder a gwerth ecolegol presennol y man gwyrdd.

3.13.2 Gallai plannu coed coffa fod yn rhan bwysig o ddull strategol o blannu coed newydd. Ond, cyn bod modd hyrwyddo unrhyw gynllun o'r fath bydd gofyn ystyried

yn ofalus er mwyn dod o hyd i leoliad addas sy’n hygyrch ond lle mae’r risg o ddifrod yn isel.

3.13.3 Sefydlwyd rhai perllannau newydd yn Nhorfaen dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth blannu coed, yn enwedig mewn ardaloedd trefol, dylid ystyried manteision plannu coed ffrwythau.

## 3.14 Y goeden iawn yn y man iawn

3.14.1 Rhaid i unrhyw bolisi newydd ar gyfer plannu coed yn lle rhai a gwympwyd, gadw at y dull o blannu'r goeden iawn yn y man iawn. Mae'n bwysig fod pob coeden newydd sy'n cael ei phlannu yn addas i leoliad a chyd-destun plannu'r goeden neu'r coed.

3.14.2 Mae *Trees in the Townscape: A Guide for Decision Makers (Trees and Design Action Group)* yn ganllaw da i'r egwyddor o'r 'goeden iawn yn y man iawn'. Mae'r ffactorau i'w hystyried wrth roi sylw i'r mater hwn yn ymwneud â'r math o goeden, ei lleoliad a'r bobl a fydd yn ei chynnal a'i chadw. Gallai'r rhain gynnwys

- Swyddogaeth - y buddion a ddymunir gan y goeden.
- Cymeriad - cymeriad hanesyddol a chymeriad tirwedd yr ardal.
- Amrywiaeth - cymeriad a phroffil y boblogaeth goed ehangach.
- Dylunio - graddfa, cydbwysedd, effaith, gwead a lliw disgwyliedig y goeden.
- Cyfyngiadau'r safle - y math o bridd a'r amodau, faint o haul, uchderau'r adeiladau cyfagos a'r lle sydd ar gael uwchben y ddaear ac o dan y ddaear. Niwsans posibl, gan gynnwys paill, rhwystro golau rhag cyrraedd ystafelloedd cyfanheddol, llinellau gwelededd ar gyfer camerâu teledu cylch cyfyng, goleuadau priffyrdd a stryd, lle i geblau uwchben a cherbydau. Y risg o ran y difrod y gallai'r goeden ei achosi i strwythurau (mae hyn yn gofyn am ymwybyddiaeth o'r math o bridd, rhywogaeth y goeden a'i nodweddion ynghyd â chynllun y sylfeini).
- Capasiti i gefnogi - alinio gyda dyheadau cymunedol ynghyd â'r capasiti i reoli a chynnal a chadw yn y tymor hir.

## 3.15 Coed a Datblygiad: Canllawiau Cynllunio Atodol

3.15.1 Mae'r adran hon yn Strategaeth Coed Torfaen yn cyflwyno pwysigrwydd Canllawiau Cynllunio Atodol ar gyfer Coed a Choetiroedd (Bioamrywiaeth). Mae'n gosod fframwaith ar gyfer datblygwyr ac eraill sy'n ymwneud â'r broses gynllunio, ynghylch sut y bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried coed a gwrychoedd ayb. yn rhan o'r broses o gynllunio defnydd tir. Mae amserlen y cynllun gweithredu ar gyfer 2021-2030 a gyflwynir yn Adran 4 wedi amserlennu paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol manwl erbyn 2021.

3.15.2 **Gofynion Arolygu**

Ble y gallai cynigion ar gyfer datblygiad effeithio ar goed, bydd gofyn cynnal arolwg priodol o'r coed a rhaid i ymgynghorydd coedyddiaeth hollol gymwys baratoi'r arolwg. Arfer gorau yw cyflwyno'r gwaith hwn gyda chais cynllunio. Rhaid gwneud pob arolwg coed i gefnogi'r cais yn unol â BS5837:2012 ‘*Trees in Relation to Design, Demolition and Construction – Recommendations’.* Dylai adroddiad yr arolwg gynnwys yr elfennau canlynol:

- Categorïau coed
- Cynllun cyfyngiadau ar goed
- Cynllun gwarchod coed
- Efallai y bydd gofyn cynnwys datganiad dull a manylion goruchwylio a monitro hefyd.

3.15.3 **Parthau diogelu coed a gwreiddiau**

Rhaid i'r gofynion arolygu uchod gynnwys manylion parthau diogelu gwreiddiau coed. Eto, mae BS5837:2012 yn rhoi arweiniad ynghylch hyn. Rhaid hefyd ystyried y cysgod y mae coed yn ei daflu dros adeiladau a mannau agored.

3.15.4 **Lleiniau clustogi coetiroedd hynafol, coed aeddfed a choed hynod**

Mae BS5837:2012 yn cyflwyno egwyddorion cyffredinol parthau diogelu coed a gwreiddiau ac, yn benodol, llain glustogi briodol o ymyl y coetir i ôl-troed agosaf datblygiad. Serch hynny, rhaid rhoi sylw arbennig i goed aeddfed a hynod a choetiroedd hynafol. Rhaid diogelu coetir hynafol yn arbennig trwy lain glustogi a allai fod yn fwy na'r 15 metr a nodir yn BS5837:2012.

Mae canllawiau Llywodraeth y Deyrnas Unedig, '*Ancient Woodland, Ancient Trees and Veteran Trees: Protecting them from Development 2018'* yn ehangu ar ddiben lleiniau clustogi. Rhaid ystyried mai 15 metr o foncyff y goeden agosaf yw'r pellter lleiaf, fodd bynnag, gellid cynyddu hyn lle bo modd dangos bod angen llain glustogi mwy o faint.
https://www.gov.uk/guidance/ancient-woodland-and-veteran-trees-protection-surveys-licences

Gellir gweld ardaloedd o goetir hynafol ar wefan 'Y Lle' Cyfoeth Naturiol Cymru. http://lle.gov.wales

3.15.5 **Tirlunio a dewis rhywogaethau**.

Yn aml, mae cynigion ar gyfer gwaith tirlunio yn rhan annatod o gynllun datblygiad. Lle bo'n bosibl, dylid tirlunio mewn ffordd sy'n sicrhau ei fod yn weithredol, yn cynnal bioamrywiaeth ac yn rhan o ddarpariaeth o fannau agored cysylltiedig. Gall tirlunio gofalus wella ymddangosiad datblygiad a bydd y dewis o rywogaethau brodorol yn sicrhau gwelliannau ecolegol.

## 3.16 Dull o werthfawrogi coed a arweinir gan y gymuned

3.16.1 Bydd y Cyngor yn cynnwys y gymuned leol, busnesau, Cynghorau Cymuned, darparwyr iechyd ac addysg, perchnogion coetiroedd cymunedol a rhanddeiliaid eraill yn y sector cyhoeddus a phreifat mewn mentrau yn ymwneud â choed. Gallai hyn olygu plannu coed, dylunio gwaith celf sy'n seiliedig ar goed, hybu cerdded mewn coetiroedd ar gyfer llesiant, casglu a thyfu hadau, arolygon ac astudiaethau academaidd, rheoli cynefinoedd yn weithgar ayb. Trwy wneud hynny, gobeithir meithrin gwell gwerthfawrogiad a pherchnogaeth o holl goed, coetiroedd a gwrychoedd Torfaen.

## 3.17 Monitro ac adolygu

3.17.1 Bydd y gwaith o weithredu'r strategaeth hon a'r cynllun gweithredu hwn yn cael ei fonitro a'i adolygu gan Grŵp Cyflawni Swyddogion y Cynllun Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau ac adroddir ar gynnydd trwy ofynion adrodd tair blynedd Deddf yr Amgylchedd (Cymru). Bydd y Grŵp yn ymdrechu i sicrhau bod y strategaeth a'r cynllun yn cael eu diweddaru i adlewyrchu unrhyw newidiadau deddfwriaethol neu newidiadau i bolisi sy'n berthnasol.



*Pinwydden bolion ymwthiol ar ardal Mynydd y Garn-fawr ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Blorens.*

## 4. Amserlen Cynllun Gweithredu Drafft 2021 -2030

Mae'r camau a gyflwynir isod yn dilyn yr amcanion a gyflwynir yn adran Y Dull Gweithredu. Efallai y bydd rhai camau gweithredu yn berthnasol i sawl amcan.

### 4.1 Amcan 1: **Rheoli coed** mewn ffordd gynaliadwy

| Gweithred | Amserlen |
|---|---|
| 1.1 Trefnu dull gweithredu corfforaethol, ar y cyd, ar gyfer ymdrin â choed, plannu, diogelu a rheoli. | 2021-24 |
| 1.2 Dylunio a chyhoeddi fersiwn ‘hawdd ei ddeall’ o Strategaeth Coed Torfaen. | 2021 |
| 1.3 Mapio a monitro newidiadau yn y brigdwf. Ystyried hyn fel rhan o ddull gweithredu seilwaith gwyrdd trosfwaol. | 2021-22 |
| 1.4 Ystyried mabwysiadu a gweithredu system gwerthuso coed fewnol. | 2021-22 |
| 1.5 Sefydlu dull gweithredu cyson ar gyfer rheoli coed a choetir sy'n gyson â'r strategaeth hon. | 2021-22 |
| 1.6 Lle bo'n berthnasol, datblygu cynlluniau rheoli coed a choetiroedd ar gyfer parciau a choetiroedd allweddol sy'n eiddo cyhoeddus. | 2021-25 |
| 1.7 Datblygu proses fapio cyfleoedd sy'n canolbwyntio ar goed, ar gyfer coetiroedd, parciau a choed stryd ac elfen o'r dull gweithredu seilwaith gwyrdd | 2021-22 |
| 1.8 Sicrhau bod coed yn cael ystyriaeth ddyledus ymhob datblygiad sy’n ymwneud â chynllunio a phob prosiect sy'n cael ei redeg gan y cyngor. | 2021-30 |
| 1.9 Datblygu dulliau rheoli coed a choetiroedd sy'n gadarn o ran hinsawdd ac ecosystemau. | 2021-25 |
| 1.10 Gweithio gyda ysgolion er mwyn eu hannog i gasglu hadau a thyfu glasbrennau ar dir yr ysgol. | 2021-30 |
| 1.11 Defnyddio’r bas-data coed fel cymorth i oleuo penderfyniadau. | 2021-30 |
| 1.12 Archwilio cyfleoedd i ddefnyddio defnyddiau coediog fel tanwydd biomas | 2022-23 |

### 4.2 Amcan 2: **Plannu coed** mewn ffordd strategol

| Gweithred | Amserlen |
|---|---|
| 2.1 Gwrthdroi'r dirywiad ym mrigdwf coed trefol gan ddychwelyd at ffigurau 2009 (gweler adroddiad Brigdwf Coed Trefol Torfaen Cyfoeth Naturiol Cymru) | 2021-30 |
| 2.2 Cael cytundeb y cyngor i blannu coed yn lle pob coeden y mae'r awdurdod lleol yn ei chwympo. | 2021 |
| 2.3 Datblygu metrig ar gyfer nifer y coed i'w hailblannu mewn perthynas â'r brigdwf a gollwyd. | 2021 |

| | |
|---|---|
| 2.4 Cael cytundeb y cyngor i ddatblygu cynlluniau plannu coed newydd ar dir sy'n eiddo i'r cyngor, i'w goleuo gan ddull gweithredu seilwaith gwyrdd. | 2021 |
| 2.5 Lle bo modd sicrhau nawdd, parhau i sefydlu perllannau cymunedol newydd. | 2021-30 |
| 2.6 Ystyried datblygu ardal o goed coffa ym mhob un o brif drefi Torfaen, Blaenafon, Pont-y-pŵl, Cwmbrân. | 2022-23 |
| 2.7 Gweithio gyda Chynghorau Cymuned er mwyn ymchwilio i gyfleoedd am nawdd ar gyfer plannu coed a choetiroedd newydd. | 2021-23 |
| 2.8 Datblygu dewis o goed sy'n gadarn yn erbyn yr hinsawdd (e.e. yn gwrthsefyll clefydau) er mwyn helpu goleuo'r gwaith o blannu coed trefol newydd. | 2021 |

### 4.3 **Amcan 3**: Dull o **warchod coed** ar gyfer Torfaen gyfan

| **Gweithred** | **Amserlen** |
|---|---|
| 3.1 Ystyried elfennau ymarferol cyflwyno Bond Coed trwy'r broses o gynllunio defnydd tir. | 2022-23 |
| 3.2 Gorchmynion Cadw Coed - adolygu Gorchmynion Cadw Coed yn unol â gofynion Nodyn Cyngor Technegol 10. | 2022-23 |
| 3.3 Canllawiau Cynllunio Atodol Drafft ar gyfer coed a choetiroedd (bioamrywiaeth). | 2021-22 |
| 3.4 Datblygu mesurau lliniaru a gwneud iawn priodol ar gyfer colli coed a choetiroedd yn gyson â dyletswydd adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i warchod a gwella bioamrywiaeth. | 2021-22 |
| 3.5 Trwy'r Canllawiau Cynllunio Atodol a gynigir, cytuno ar faint mandadol ar gyfer lleiniau clustogi gwmpas coetiroedd hynafol. | 2021-22 |
| 3.6 Lle bo'n briodol, parhau i ddynodi Gorchmynion Cadw Coed newydd. | 2021-30 |
| 3.7 Lle bo'n briodol parhau i ddynodi Safleoedd o Bwysigrwydd er Gwarchod Natur newydd. | 2021-30 |
| 3.8 Adrodd yn rhagweithiol ynghylch pob achos anghyfreithlon honedig o gwympo coed a choetiroedd a gwaredu gwrychoedd i'r corff gorfodi perthnasol. | 2021-30 |
| 3.9 Defnyddio amodau cynllunio er mwyn sicrhau y diogelir coed a choetiroedd yn unol â pholisi cynllunio a phob Safon Brydeinig berthnasol. | 2021-30 |
| 3.10 Sicrhau bod y Cynllun Datblygu Lleol yn cynnwys datganiad polisi clir ynghylch coed a choetiroedd | 2021-22 |
| 3.11 Ymgymryd ag adolygiad pen bwrdd o'r holl Orchmynion Cadw Coed. | 2022-23 |
| 3.12 Adolygu llwyddiant ceisiadau cynllunio sy'n cael eu cymeradwyo a oedd wedi cynnwys elfen o blannu coed, er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth. | 2023-25 |
| 3.13 Annog y defnydd o'r 'Rhestr Coed Hynafol' ac ystyried pob coeden ar y rhestr trwy'r system gynllunio. | 2021-30 |

**4.4 Amcan 4:** Dull o **werthfawrogi coed** a arweinir gan y gymuned

| Gweithred | Amserlen |
|---|---|
| 4.1 Diweddaru sylfaen dystiolaeth y Seilwaith Gwyrdd mewn perthynas â choed, coetir a gwrychoedd. | 2021-22 |
| 4.2 Codi ymwybyddiaeth o fuddion coed trwy lwyfannau cyfryngau cymdeithasol. | 2021-30 |
| 4.3 Gweithio gydag ysgolion i ddatblygu ymwybyddiaeth o goed lleol a phwysigrwydd tyfu coed o darddiad lleol. | 2021-30 |

**4.5 Amcan 5:** Dull partneriaeth o fonitro ac adolygu **Strategaeth Coed Torfaen**

| Gweithred | Amserlen |
|---|---|
| 5.1 Datblygu dangosyddion perfformiad allweddol mewn perthynas â'r brigdwf a'r coed a blannwyd ayb. | 2021-22 |
| 5.2 Adrodd yn flynyddol gyda chysylltiadau at Grŵp Cyflawni Swyddogion y Cynllun Bioamrywiaeth a Chadernid Ecosystemau. | 2021-30 |
| 5.3 Adolygu Strategaeth Coed a Choetiroedd Torfaen yn flynyddol. | 2021-30 |
| 5.4 Paratoi Strategaeth Coed wedi ei diweddaru bob deng mlynedd | 2030 |
| 5.5 Adrodd ar gynnydd trwy ofynion adrodd tair blynedd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | 2022, 2025 a 2028 |

**4.6 Amcan 6:** Sicrhau bod cyn lleied â phosibl o risgiau i bobl, seilwaith ac eiddo trwy reoli risgiau gan goed.

| Gweithred | Amserlen |
|---|---|
| 6.1 Gweithredu rhaglen archwilio risgiau coed y cyngor. Archwilio tir ysgolion bob blwyddyn a phob man arall bob 5 mlynedd. | 2021-30 |
| 6.2 Parhau gyda’r gwaith adferol ar goed a nodwyd yn y rhaglen archwilio. | 2021-30 |
| 6.3 Cynnal cronfa ddata o ymholiadau/gŵynion a'r mathau o gŵynion. | 2021-30 |
| 6.4 Pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda choed i sicrhau bod pob achos o blâu y dylid eu hadrodd, er enghraifft coed ynn sy'n gwywo, yn cael eu hadrodd wrth Gyfoeth Naturiol Cymru a'u cofnodi ar system cofnodi coed Ezytreev | 2021-30 |
| 6.5 Archwilio buddion mabwysiadu'r system QTRA (Asesiad Risg Coed Meintioledig) er mwyn Rheoli Diogelwch | 2022-23 |

| | |
|---|---|
| Coed. | |
| 6.6 Datblygu protocol rhywogaethau a warchodir ar gyfer swyddogion sy'n ymwneud â rheoli coed | 2021-22 |